

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC): Canllaw ar ddadansoddi data dangosyddion, 2019 ymlaen¹

Ynglŷn â'r canllawiau

Mae'r erthygl hon yn rhoi canllawiau ar ddadansoddi data'r dangosyddion sy'n sail i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y data a gyhoeddwyd a sut i gael gafael arnynt, "gair i gall" ar gyfer dadansoddi, ac enghreifftiau o waith dadansoddi sy'n bodoli eisoes. Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at ddata dangosyddion a gyhoeddwyd fel rhan o fynegai MALIC 2019, a byddant yn cael eu diweddaru ochr yn ochr â phob diweddariad arfaethedig i ddata dangosyddion. Caiff y mynegai llawn ei ddiweddaru bob 3 i 5 mlynedd, ond caiff detholiad o'r dangosyddion eu diweddaru yn y cyfnod interim. I gael gwybodaeth fanylach am ddata dangosyddion a gyhoeddwyd cyn MALIC 2019, darllenwch erthygl canllawiau dangosyddion MALIC 2014-2017.

Cynnwys

1 Cyflwyniad i MALIC.....	2
2 Data dangosyddion MALIC: Beth rydym wedi ei gyhoeddi?	4
3. Cael gafael ar ddata dangosyddion MALIC	7
4 Data dangosyddion MALIC a chymharedd dros amser	11
5 Data poblogaeth	23
6 Data ar gyfer gwledydd eraill y DU.....	25
7 Newidiadau i Ffiniau ACEHlau.....	26
8 Gair i Gall	27
9 Enghreifftiau o ddadansoddiadau	29
10 Astudiaeth achos	34
11 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol.....	37
Atodiad	39

Dyddiad Cyhoeddi: 15 Mehefin 2021

Diweddariad ddiwethaf: 24 Ionawr 2023

Diweddariad nesaf: Nid yn allbwn rheolaidd

Nia Jones, Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Ffôn: 0300 025 4088

E-bost: ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru

Twitter: www.twitter.com/statisticswales | www.twitter.com/ystadegaucymru

¹ Ceir nodiadau ar y defnydd o erthyglau ystadegol ar ddiwedd y ddogfen hon.

1 Cyflwyniad i MALIC

1.1 Beth yw MALIC?

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ystadegyn Gwladol ydyw, a chaiff ei lunio gan ystadegwyr yn Llywodraeth Cymru. Mae MALIC yn nodi'r ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o nifer o fathau gwahanol o amddifadedd. Prif ddiben y mynegai yw darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen am yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru er mwyn llywio amrywiaeth o benderfyniadau, megis cyllido neu dargedu rhaglenni a gwasanaethau ar gyfer ardaloedd lleol.

Mae MALIC yn gosod yr holl ardaloedd bach yng Nghymru mewn safleoedd, o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig). Cyfeirir at yr ardaloedd bach fel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau) Mae'r ddaearyddiaeth hon yn seiliedig ar ddata'r cyfrifiad, ac mae'n cynrychioli ardaloedd bach, pob un ohonynt â phoblogaeth o tua 1,600 o bobl.

1.2 Beth mae MALIC yn ei fesur?

Mae MALIC yn mesur amddifadedd lluosog ar sail ardal yn ogystal â mesur amddifadedd cymharol. Ceir esboniad pellach o'r termau hyn yn [MALIC 2019: Canllaw](#).

Ar hyn o bryd, mae MALIC yn cynnwys wyth maes (neu fath) ar wahân o amddifadedd. Mae pob maes yn seiliedig ar amrywiaeth o ddangosyddion gwahanol. Roedd MALIC 2019 yn cynnwys y meysydd canlynol:

- a) Incwm
- b) Cyflogaeth
- c) Iechyd
- d) Addysg
- e) Mynediad i Wasanaethau
- f) Tai
- g) Diogelwch Cymunedol
- h) Amgylchedd Ffisegol

1.3 Sut y caiff mynegai MALIC ei lunio?

Mae tair elfen sylfaenol yn perthyn i'r Mynegai:

- Y 47 o setiau data dangosyddion sylfaenol
- Safleoedd ar gyfer yr wyth maes (neu fath) gwahanol o amddifadedd, a grëwyd drwy gyfuno dangosyddion perthnasol o fewn pob maes
- Safleoedd cyffredinol MALIC, a grëwyd drwy gyfuno safleoedd y meysydd

Caiff pob un o'r elfennau hyn eu cyfrifo ar gyfer pob un o'r ardaloedd bach yng Nghymru. Cyhoeddir data'r dangosyddion, safleoedd y meysydd a'r safleoedd cyffredinol ar wefan [StatsCymru](#). Mae'r erthygl hon yn canolbwyntio ar ddata'r dangosyddion.

Ceir gwybodaeth dechnegol fanwl am fethodoleg MALIC yn [Adroddiad Technegol](#) MALIC 2019.

1.4 Beth yw data dangosyddion MALIC?

Mae meysydd MALIC yn seiliedig ar setiau o ddangosyddion. Mae'r rhain yn feintiau mesuradwy sy'n nodi'r cysyniad o amddifadedd ar gyfer pob maes. Mae setiau data dangosyddion yn darparu amrywiaeth o wybodaeth i ddefnyddwyr sy'n eu galluogi i ddadansoddi amddifadedd mewn ffyrdd y tu hwnt i fynegai syml neu safleoedd meysydd.

1.5 Rhagor o wybodaeth

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am MALIC, gan gynnwys canllawiau a chanlyniadau ar [dudalennau gwe MALIC gwefan Llywodraeth Cymru](#). Ceir rhestr lawn o gynhyrchion MALIC 2019 a dolenni yn [MALIC 2019: Rhestr o allbynnau](#).

2 Data dangosyddion MALIC: Beth rydym wedi ei gyhoeddi?

2.1 Diweddariadau i ddata dangosyddion

Er mai dim ond bob 3 i 5 mlynedd y caiff y mynegai llawn a'r safleoedd meysydd eu diweddarau, mae'n bosibl y caiff rhai o'r dangosyddion sylfaenol eu diweddarau yn y cyfnod interim. Nod y diweddariadau i ddata dangosyddion yw darparu gwybodaeth newydd i'r rhai sydd â diddordeb mewn dadansoddi amddifadedd ardaloedd a/neu grwpiau oedran, gan eu galluogi i wneud rhywfaint o waith dadansoddi dros amser a chymharu ardaloedd. Mae dadansoddi data'r dangosyddion wedi'i nodi'n flaenoriaeth i ddefnyddwyr yn aml ers inni ddechrau cyhoeddi'r data manwl.

Wrth ddiweddarau mynegai, caiff data'r dangosyddion i'w cynnwys eu hadolygu, ac ar gyfer dangosyddion parhaus, defnyddir data mwy cyfredol lle y bo'n bosibl. Yn 2019, bu amrywiaeth o newidiadau i ddata dangosyddion mewn nifer o feysydd o gymharu â'r mynegai blaenorol a gyhoeddwyd yn 2014. Ymhlith y newidiadau i ddata ddangosyddion yn 2019 roedd cyflwyno dangosyddion newydd yn y meysydd lechyd, Addysg, Mynediad i Wasanaethau, yr Amgylchedd Ffisegol a Thai. Mae Tabl 5 yn yr atodiad yn nodi'r newidiadau i ddata dangosyddion rhwng mynegai 2014 a mynegai 2019. Gellir dod o hyd i ddata'r dangosyddion diweddaraf ar wefan [StatsCymru](#).

Rhyddhawyd data dangosyddion ochr yn ochr â mynegeion MALIC 2008, 2011, 2014 a 2019. Rhwng 2011 a 2017, cafodd data dangosyddion dethol eu diweddarau bob blwyddyn a'u cyhoeddi ar wefan [StatsCymru](#). Yn ogystal â chael eu cyhoeddi ar lefel ardal fach (AGEHI), lle y bo'n bosibl, caiff data dangosyddion hefyd eu cyhoeddi ar gyfer amrywiaeth o ddaeyryddiaethau a'u dadansoddi yn ôl oedran, fel y nodir yn adrannau 2.2 a 2.3. Mae Tabl 1 yn yr atodiad i'r erthygl hon yn nodi pa rai o ddangosyddion 2019 y gellir eu cymharu dros amser, a pha rai a gaiff eu dadansoddi yn ôl oedran.

Ni fydd diweddariadau i ddata dangosyddion MALIC yn ystod 2021 (ac ni wnaethom ddiweddarau unrhyw ddangosyddion MALIC yn 2020), ond byddwn yn parhau i wneud gwaith datblygu ar ddangosyddion allweddol ac yn adolygu'r potensial ar gyfer diweddariadau data yn 2022. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn ein [diweddariad i ddata dangosyddion MALIC a gyhoeddwyd ar llyw.cymru](#).

2.2 Daearyddiaethau

Caiff holl ddata MALIC eu cyhoeddi ar lefel daearyddiaeth [Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is \(AGEHI\)](#) a'r rhan fwyaf ohonynt ar lefel Cymru gyfan, ond mae llawer o'r dangosyddion ar gael ar gyfer daearyddiaethau ychwanegol hefyd, gan gynnwys:

- Awdurdodau Lleol
- [Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol \(ACEHGau\)](#)
- [Dosbarthiadau Gwledig/Trefol](#)

- [Ardaloedd Adeiledig \(AA\)](#)²
- Byrddau Iechyd Lleol
- Rhanbarthau Economaidd
- Degfedau Amddifadedd (Ardaloedd o amddifadedd yn ôl prif Fynegai MALIC 2019)

Data dangosyddion yn ôl degfedau amddifadedd yw lle mae ardaloedd bach wedi'u dosbarthu'n 10 grŵp o'r un maint yn ôl eu safle amddifadedd cyffredinol, gyda gwerthoedd dangosyddion cyfartalog wedi'u cyfrifo ar gyfer pob un o'r 10 grŵp.

- Ardaloedd Etholaethol y Senedd

Gellir dod o hyd i ffeiliau cyfeirio ('chwilio') sy'n galluogi defnyddwyr i gysylltu daearyddiaethau gwahanol (e.e. cod post ag AGEHI ac Awdurdodau Lleol) ar [Dudalennau MALIC StatsCymru](#).

Gellir hefyd ddychmygu daearyddiaethau ar fap gan ddefnyddio adnodd [rhyngweithiol MALIC](#).

Mae Tabl 2 yn yr atodiad yn nodi'r daearyddiaethau gwahanol y mae pob un o ddangosyddion 2019 ar gael ar ei gyfer, gan gynnwys mewn blynyddoedd ers 2008 ar gyfer dangosyddion hirsefydledig.

2.3 Dadansoddiadau yn ôl oedran a dadansoddi dangosyddion y blynyddoedd cynnar

Mae rhai o ddangosyddion MALIC 2019 wedi'u dadansoddi yn ôl oedran ac wedi'u cyhoeddi ar wefan [StatsCymru](#). Mae'r dadansoddiad yn ôl oedran a ddefnyddir ar gyfer pob dangosydd yn amrywio yn seiliedig ar ystyriaethau o ran datgelu a defnyddioldeb.

Yn 2019, mae'r dangosyddion dan sylw yn ymwneud â'r meysydd incwm, cyflogaeth, iechyd ac addysg. Mae'r data ar amddifadedd incwm wedi'u dadansoddi yn ôl oedran ar gael ar yr wyth lefel cyfuno a restrir yn adran 2.2. Mae data amddifadedd cyflogaeth ac absenoldeb mynych wedi'u dadansoddi yn ôl oedran ar gael ar lefel yr AGEHI a'r Awdurdod Lleol. Cafodd tri dangosydd cyfrifiad 2011 (oedolion heb unrhyw gymwysterau, salwch cyfyngus hirdymor a chartrefi gorlawn) eu dadansoddi yn ôl oedran fel rhan o'r gyfres o [gynhyrchion MALIC 2014](#). Rydym yn gweithio i gyhoeddi cyflyrau cronig a chyflyrau iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddygon teulu wedi'u rhannu yn ôl oedran, ac rydym wrthi'n adolygu'r dadansoddiadau mwyaf priodol i'w cynnwys. Mae Tabl 1 yn yr atodiad yn cynnwys gwybodaeth am ddangosyddion 2019 wedi'u dadansoddi yn ôl oedran.

Cyhoeddwyd dadansoddiad o ddata dangosyddion MALIC i archwilio patrymau o amddifadedd ymysg plant ifanc 7 oed ac iau ar ein tudalennau [MALIC llyw.cymru](#) yn ystod yr haf 2021. Mae'r erthygl hon yn canolbwyntio ar bedwar dangosydd sy'n darparu gwybodaeth benodol am blant ifanc sydd mewn amddifadedd, gan ymdrin â meysydd incwm, iechyd ac addysg:

- Amddifadedd incwm (plant rhwng 0 a 4 oed sy'n byw mewn cartrefi sydd wedi'u hamddifadu o ran incwm.

Y diffiniad o Ardaloedd Adeiledig a ddefnyddir i gyfrifo Data Dangosyddion MALIC yw'r is-ddosbarthiadau o ardaloedd adeiledig ar sail ffit orau, sydd â throthwy o 2000 o bobl.

- Pwysau geni isel
- Gordewdra ymhlith plant 4 a 5 oed
- Sgôr pwyntiau cyfartalog y cyfnod sylfaen

Mae data dangosyddion wedi'u dadansoddi yn ôl oedran cyn 2019 (rhwng 2014 a 2017) ar gael yn y [tab archif MALIC ar wefan StatsCymru](#). Er nad oedd rhaniadau oedran manwl ar gael cyn MALIC 2014, cafodd data rhai o'r dangosyddion ar gyfer plant eu cyhoeddi ochr yn ochr â Mynegeion Plant MALIC 2008 a 2011, sydd hefyd ar gael drwy'r tab archif ar wefan StatsCymru.

2.4 Niferoedd Amddifadedd Incwm a Chyflogaeth yn ôl oedran

Er mwyn helpu defnyddwyr i feithrin dealltwriaeth fwy cyflawn o amddifadedd mewn ardaloedd ledled Cymru, rydym wedi cyhoeddi niferoedd amddifadedd incwm a chyflogaeth MALIC 2019 ar wefan [StatsCymru \(o dan ffeiliau\)](#). Defnyddiwyd y data hyn fel y rhifiaduron wrth gyfrifo'r meysydd incwm a chyflogaeth yn MALIC 2019, ac maent yn dangos nifer y bobl a oedd mewn amddifadedd incwm a chyflogaeth yng nghanol 2016. Yn y mynegai, rhennir y niferoedd hyn yn ôl poblogaeth yr ardal er mwyn rhoi cyfradd amddifadedd incwm a chyflogaeth ar gyfer yr ardal honno (cyfran y bobl sydd wedi'u hamddifadu).

Er bod data dangosyddion yn ddefnyddiol i nodi ardaloedd lle mae crynodiadau uchel o amddifadedd, gall fod yn ddefnyddiol ystyried data'r rhifiaduron ochr yn ochr â'r cyfraddau amddifadedd (a safleoedd MALIC). Gall y niferoedd helpu defnyddwyr i nodi ardaloedd lle nad oes lefelau uchel o amddifadedd cymharol o bosibl, ond sy'n dal i gynnwys nifer mawr o bobl sy'n byw mewn amddifadedd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth ystyried grwpiau oedran penodol megis plant ac oedolion hŷn, am nad yw grwpiau oedran wedi'u dosbarthu'n gyfartal rhwng ardaloedd.

Caiff niferoedd amddifadedd eu talgrynnu i'r 5 agosaf a'u darparu ar gyfer y boblogaeth gyfan, yn ogystal â thri grŵp oedran cyffredinol (plant, pobl o oedran gweithio, a phobl 65 oed a throsodd). Mae'r data hyn ar gael ar lefel yr AGEHI, yr Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG), yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Mae mapiau lefel AGEHI o nifer y bobl sydd mewn amddifadedd incwm yn ôl oedran (2016-17) hefyd ar gael ar wefan [StatsCymru](#).

Yn ogystal â'r niferoedd wedi'u talgrynnu, rydym hefyd wedi cyhoeddi ffeil o [amcangyfrifon amddifadedd incwm ar gyfer bandiau oedran culach \(bandiau oedran 5 mlynedd\)](#). Mae'r llyfr gwaith yn cynnwys amcangyfrifon ar lefel ardaloedd bach, Awdurdodau Lleol a Chymru gyfan o nifer y bobl mewn grwpiau oedran gwahanol a oedd yn byw mewn amddifadedd incwm yng nghanol 2016. Cyfrifwyd yr amcangyfrifon hyn gan ddefnyddio [data dangosyddion](#) a gyhoeddwyd ac [amcangyfrifon poblogaeth](#) ardaloedd bach Swyddfa Ystadegau Gwladol yng nghanol 2016. O gymharu â data'r rhifiaduron a ddisgrifir uchod, mae'r amcangyfrifon hyn yn ddefnyddiol i gymharu ardaloedd yn seiliedig ar lefel uwch o fanylder o ran oedran. Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer targedu gwasanaethau a rhagweld lefelau galw ar lefel fanylach.

3. Cael gafael ar ddata dangosyddion MALIC

3.1 Dod o hyd i ddata dangosyddion MALIC

Mae holl ddata dangosyddion MALIC 2019 ar gael ar [dudalennau MALIC StatsCymru](#). Gellir dod o hyd i ddata a gyhoeddwyd cyn 2019 yn yr [adran archif](#), gyda metadata o dan bob tabl.

Mae'r data wedi'u trefnu'n dablau yn ôl daearyddiaeth. Mae pob tabl yn cynnwys data dangosyddion ar gyfer pob un o feysydd MALIC. Caiff data dangosyddion yn ôl lefel yr AGEHI hefyd eu rhannu'n feysydd fel y gellir llwytho'r data hyn yn gynt i'r porwr. Ceir rhagor o wybodaeth am ddaearyddiaethau yn adran 2.2.

Caiff data dangosyddion yn ôl oedran eu cyhoeddi ar sail dangosydd unigol. Y rheswm dros hyn yw y caiff dangosyddion gwahanol eu dadansoddi yn ôl grwpiau oedran gwahanol. Mae data amddifadedd incwm MALIC 2019 wedi'u dadansoddi yn ôl oedran ar gael ar wyth lefel cyfuno, pob un ohonynt wedi'u cyhoeddi mewn tabl ar wahân. Mae dangosyddion eraill 2019 sydd wedi'u dadansoddi yn ôl oedran ar gael ar lefel yr AGEHI a'r Awdurdod Lleol. Ceir rhagor o wybodaeth am ddata dangosyddion wedi'u dadansoddi yn ôl oedran yn adran 2.3.

3.2 Trin data MALIC

Caiff data MALIC eu cyflwyno yn yr hyn a elwir yn giwbiau StatsCymru. Mae'r ciwbiau hyn yn ffordd o weld data mewn ffordd ddynamig; gan alluogi'r defnyddiwr i aildrefnu'r data mewn ffordd sy'n diwallu ei anghenion. Byddwn yn defnyddio'r ciwb '[Data Dangosyddion yn ôl Awdurdod Lleol – Pob Maes](#)' i ddangos hyn (gweler Ffigur 1 isod).

Ffigur 1. Cwbb StatsCymru sy'n dangos data dangosyddion yn ôl Awdurdod Lleol ym mhob

<

Pan fydd y defnyddiwr yn agor y dudalen we am y tro cyntaf, bydd yn gweld tabl syml, gyda'r ddaearyddiaeth (yn yr achos hwn yr Awdurdodau Lleol) ar y chwith, wedi'i rhestru yn erbyn y dangosyddion gwahanol (neu raniadau oedran) ar hyd brig y dudalen. Bydd y tabl hwn yn addas i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr.


Fodd bynnag, mae blychau cwymplenni ar gyfer pob dimensiwn sy'n galluogi defnyddwyr i guddio (tynnu'r tic) neu ddangos (ticio) elfennau penodol – er enghraifft mae'r gwympen 'Dangosydd' yn galluogi'r defnyddiwr i weld meysydd neu ddangosyddion penodol, neu, mae'r gwympen 'Blwyddyn' yn galluogi defnyddwyr i ddewis blwyddyn lle mae data dangosyddion wedi'u diweddarau. Mae'r botymau bach gydag arwyddion plws a minws yn galluogi'r defnyddiwr i agor (+) neu gau (-) categorïau penodol.

Yn ogystal â dewis data ac ardaloedd drwy hidlo, gellir hefyd aildrefnu'r tabl drwy 'lusgo a gollwng' y dimensiynau. Gellir llusgo dimensiwn a'i ollwng fel colofn neu res newydd. Wrth lusgo dimensiwn, dylid sicrhau bod dwy saeth fertigol (un yn wynebu am i fyny a'r llall yn wynebu am i lawr) yn ymddangos cyn gollwng y dimensiwn. Gweler Ffigur 2, lle mae'r dimensiwn 'blwyddyn' wedi cael ei lusgo fel colofn wrth ymyl y dimensiwn 'dangosydd' yn un o'n ciwbiau dangosyddion ar gyfer 2014 i 2017. Yn yr achos hwn,

mae'r ciwb (tabl) hefyd wedi'i hidlo i ddangos y dangosydd amddifadedd incwm yn unig. Un peth pwysig i'w nodi yw y caiff y golofn ei chau wrth 'lusgo a gollwng' ac , felly, efallai na fydd y data'n ymddangos. Os felly, de-gliciwch ar yr arwydd (-) ar y dimensiwn a dewiswch 'Ehangu pob un'. Mae meysydd â '.' yn hytrach na data, yn cynrychioli blyneddau lle na chafodd y dangosyddion cyfatebol eu diweddarau.

Mae rhagor o ganllawiau ar ddefnyddio StatsCymru a chiwbiau ar gael yn [nhab help StatsCymru](#).

Ffigur 2. Un o giwbiau StatsCymru sy'n dangos data'r dangosydd amddifadedd incwm yn ôl Awdurdod Lleol, 2014-2017



3.3 Lawrlwytho data MALIC

Pan fydd y defnyddiwr yn hapus gyda'r diwyg, gall lawrlwytho'r data gyda'r un trefniant o resi a cholofnau. Er mwyn gwneud hyn, dewiswch y botwm 'Allforio' uwchben y tabl. Bydd y ciwb yn cynnig yr opsiwn i lawrlwytho teitl y tabl a'r metadata, yn ogystal â dewis o ddau fformat:

- ffeil gwerthoedd wedi'u gwahanu ag atalnod (.csv);
- Excel 2007-2010 (.xls);

Gall y defnyddiwr wedyn ddadansoddi'r data hyn gan ddefnyddio ei ddewis becyn meddalwedd.

3.4 Rheoli datgeliadau

Mae mesurau rheoli datgeliadau wedi'u cymhwyso lle bo angen at ddata dangosyddion ar wefan StatsCymru. Mae'r holl ddata wedi'u talgrynnu ac mae eitemau data wedi'u hatal lle yr ystyrir eu bod yn ddatgelol neu nad ydynt yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi. Nodir seren (*) yn lle data wedi'u hatal yn nhablau StatsCymru. Dylid ystyried hyn wrth drin y data hyn. Mae rheoli datgeliadau yn arbennig o bwysig wrth ddarparu ystadegau ardaloedd bach am ei bod yn fwy tebygol y gellir adnabod unigolion yn ôl nodweddion penodol. Mae Tabl 4 yn yr atodiad yn amlinellu'r camau atal a thalgrynnu a gymerwyd fel rhan o'r broses rheoli datgeliadau at gyfer dangosyddion MALIC 2019.

3.5 Rhannu data MALIC

Pan fydd y defnyddiwr yn hapus gyda'r diwyg, gall arbed neu rannu dolen i'r data gyda'r un trefniant o resi a cholofnau. Er mwyn gwneud hyn, dewiswch y botwm 'Dolen' uwchben y tabl. Yna, copi'wch yr URL a ddarparwyd a'i ludo mewn e-bost neu ddogfen.

3.6 Data agored

Mae Data Agored yn cyfeirio at y syniad o ddata'n cael eu darparu am ddim mewn fformat hawdd ei ddeall y gall unrhyw un ei ddefnyddio. Mae llawer o giwbiau StatsCymru bellach ar gael drwy wasanaeth OData, y gellir ei ddefnyddio i ymholi data i ddiwallu anghenion y defnyddiwr. Gellir dadansoddi OData gan ddefnyddio ychwanegyn Power Query Microsoft Excel, [Microsoft's Power BI](#), neu gynhyrchion gwybodaeth busnes eraill. Gellir dod o hyd i ymholiadau defnyddiol gwasanaeth OData ar wefan StatsCymru drwy sgrolio i lawr a defnyddio'r tab 'Data Agored' ar waelod y set ddata (yn yr adran metadata). Mae'r symbol canlynol, os bydd yn ymddangos wrth ymyl un o dablau StatsCymru a restrir, yn dangos argaeledd y set ddata hon drwy OData:



Gweler y [fideos canllawiau ar OData yn adran Help gwefan StatsCymru](#).

3.7 Mapio data

Gellir mapio data MALIC 2019 drwy [adnodd Lle.llyw.cymru](#). Porth-daear ar gyfer Cymru yw hwn, sy'n darparu data a gwybodaeth am amrywiaeth eang o bynciau. Mae'r adnodd hwn yn darparu ffeiliau siâp er mwyn i ddefnyddwyr gwblhau eu gwaith mapio a haenu data eu hunain.

Mae mapiau lefel AGEHI o nifer y bobl sydd mewn amddifadedd incwm yn ôl oedran (2016-17) hefyd ar gael ar wefan [StatsCymru](#), a all fod yn ddefnyddiol i helpu i dargedu adnoddau ar sail ardal. Mae manylion y data a ddefnyddiwyd i lunio'r mapiau hyn ar gael yn adran 2.4 o'r erthygl hon.

3.8 Data ac adnoddau mynegai MALIC

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar Ddata Dangosyddion MALIC. Mae safleoedd amddifadedd cymharol MALIC a dadansoddiadau yn seiliedig ar y safleoedd hyn hefyd ar gael ar wefan [StatsCymru](#). Gellir archwilio'r data hyn drwy ein [hadnodd mapio rhyngweithiol](#), ac mae canllawiau ar y mynegai a'r safleoedd meysydd ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

4 Data dangosyddion MALIC a chymharedd dros amser

Mae'r is-adrannau canlynol yn rhoi crynodeb o ddangosyddion MALIC 2019, gan gynnwys p'un a ellir cymharu'r dangosyddion â data mynegeion a diweddariadau blaenorol. Mae Tabl 1 isod yn nodi meysydd a dangosyddion MALIC 2019, ac mae gwybodaeth fanylach ar gael yn [Adroddiad Technegol MALIC 2019](#). Mae Tabl 1 yn yr atodiad yn crynhoi'r wybodaeth hon, gan gynnwys cymharedd dros amser, ac mae Tabl 3 yn yr atodiad yn amlinellu cyfnod cyfeirio'r data sylfaenol ar gyfer pob dangosydd yn ôl blwyddyn cyhoeddi. Mae rhifyn blaenorol yr [erthygl canllawiau ar ddangosyddion MALIC \(2014-2017\)](#) yn cynnwys rhagor o fanylion am ddangosyddion blaenorol a chymharedd cyfnodau amser hŷn.

Tabl 1: Meysydd a Dangosyddion MALIC 2019

Dangosydd	Manylion
Incwm	
1 Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm	Canran y boblogaeth sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm a chredydau treth Fe'i diffinnir fel y rhai sydd naill ai: (a) Yn oedolyn, neu'n blentyn dibynnol i oedolyn, sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm (b) Yn oedolyn, neu'n blentyn dibynnol i oedolyn sy'n cael Credydau Treth Gwaith a Phlant, sydd ag incwm sy'n llai na 60 y cant o ganolrif Cymru (c) Yn Geisiwr Lloches (fel y'i diffinnir gan Adran 95) (d) Yn bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol (ac eithrio'r rhai "sy'n gweithio heb unrhyw ofynion")
Cyflogaeth	
1 Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth	Canran y boblogaeth o oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth (lwfans ceisio gwaith, lwfans cyflogaeth a chymorth, budd-dal analluogrwydd neu Gredyd Cynhwysol) ac nad ydynt mewn gwaith
Iechyd	
1 Cyflyrau cronig	Pobl â diagnosis o gyflwr cronig a gofnodwyd gan feddyg teulu (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran-rhyw) [Clefyd Coronaidd y Galon, Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint, Strôc a Thrawiad Isgemig Darfodedig, Clefyd Rhydweiliol Ymylol, Clefyd Cronig yr Arennau, Diabetes Mellitus (math 1 ar gyfer pob oedran, math 2 a mathau eraill ar gyfer pobl 17 oed a throsodd, neu Epilepsi)]
2 Salwch hirdymor cyfyngus	Salwch Hirdymor Cyfyngus (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran-rhyw)
3 Marwolaethau cynamserol	Cyfradd Marwolaethau Cynamserol (marwolaeth y rhai dan 75 oed)

Dangosydd		Manylion
4	Cyflyrau iechyd meddwl	Pobl â diagnosis o gyflwr lechyd Meddwl a gofnodwyd gan feddyg teulu (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran-rhyw) [Iselder, Hwyliau isel (gyda phresgripsiwn amlroddadwy gweithredol ar gyfer gwrth-iselydd), Anhwylder gorbryder (gan gynnwys anhwylderau panig), Dementia, Salwch meddwl difrifol (sgitsoffrenia, anhwylder affeithiol deubegynol a seicosisau eraill)]
5	Nifer yr achosion o ganser	Nifer yr achosion o Ganser (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran-rhyw)
6	Pwysau geni isel	Pwysau Geni Isel, Genedigaethau Sengl (genedigaethau byw sy'n llai na 2.5 Kg)
7	Plant gordew	Plant 4-5 oed sy'n Ordew
Addysg		
1	Sgôr Pwyntiau Cyfartalog y Cyfnod Sylfaen	
2	Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2	
3	Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer Pynciau Craidd	
4	Absenoldeb Mynych	
5	Cyfran y disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n mynd ymlaen i Addysg Uwch	
6	Nifer yr oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau	
Mynediad i Wasanaethau		
1	Mynediad ffisegol i wasanaethau	Mynediad Ffisegol – amseroedd teithio dwyffordd cyfartalog i wasanaethau allweddol gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus a phreifat: fferyllfa, siop fwyd, meddygfa, cangen o Swyddfa'r Post, ysgol gynradd, llyfrgell gyhoeddus, cyfleuster chwaraeon, ysgol uwchradd, a gorsaf betrol (cludiant preifat yn unig)
2	Mynediad i fand eang	Mynegiad Digidol – Diffyg argaeledd canrannol band eang ar 30Mb/e
Tai		
1	Cartrefi gorlawn	Canran y bobl sy'n byw mewn cartrefi gorlawn (mesur ystafelloedd gwely)
2	Tai o safon wael	Y tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael (sydd mewn cyflwr gwael neu'n cynnwys peryglon difrifol)
Diogelwch Cymunedol		
1	Difrod Troseddol a Gofnodwyd gan yr Heddlu	
2	Troseddau Treisgar a Gofnodwyd gan yr Heddlu	
3	Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Gofnodwyd gan yr Heddlu	
4	Bwrgleriaethau a Gofnodwyd gan yr Heddlu	
5	Achosion o Ddwyn a Gofnodwyd gan yr Heddlu	
6	Digwyddiadau Tân	
Amgylchedd Ffisegol		
1	Ansawdd aer (nitrogen deuocsid)	Gwerth crynodiad cyfartalog wedi'i bwysoli yn ôl y boblogaeth ar gyfer nitrogen deuocsid (NO ₂)

Dangosydd	Manylion
2 Ansawdd aer (gronynnau < 10 µm)	Gwerthoedd crynodiad cyfartalog wedi'i bwysoli yn ôl y boblogaeth ar gyfer Gronynnau < 10 µm (PM ₁₀)
3 Ansawdd aer (gronynnau < 2.5 µm)	Gwerthoedd crynodiad cyfartalog wedi'i bwysoli yn ôl y boblogaeth ar gyfer Gronynnau < 2.5 µm (PM _{2.5})
4 Perygl llifogydd	Perygl Llifogydd
5 Mynediad i fannau gwyrdd naturiol	Agosrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch – sy'n mesur cyfran y cartrefi sydd o fewn 300 metr i fan gwyrdd naturiol hygyrch
6 Sgôr mannau gwyrdd amgylchol	Sgôr Mannau Gwyrdd Amgylchol – sy'n mesur Mynegai Llystyfiant â Gwahaniaeth wedi'i Normaleiddio (NDVI) cymedrig cartrefi

4.1 Y Maes Incwm

Mae'r maes incwm yn cynnwys un dangosydd (canran y boblogaeth sydd mewn amddifadedd incwm), sy'n cynnwys pedair elfen:

- Hawlwyr Budd-daliadau sy'n Gysylltiedig ag Incwm
- Derbynwyr Credydau Treth
- Ceiswyr Lloches sy'n Derbyn Cymorth
- Pobl sy'n cael Credyd Cynhwysol (ac eithrio'r rhai sy'n "gweithio heb unrhyw ofynion", hynny yw, sydd ag enillion unigol neu gartref sydd uwchlaw'r lefel y mae [amodoldeb](#) yn gymwys)

Mae plant dibynnol yr uchod hefyd wedi'u cynnwys. Caiff y dangosydd hwn ei fynegi fel canran o'r boblogaeth breswyl ar gyfer pob AGEHI, gyda phoblogaeth y carchardai wedi'i didynnu o'r ACEHlau sy'n cynnwys carchardai yng Nghymru.

Mae amddifadedd incwm wedi'i fesur fel canran y boblogaeth sy'n cael budd-daliadau nawdd cymdeithasol ers i MALIC gael ei ddatblygu'n wreiddiol, a thros amser, mae mân newidiadau wedi'u gwneud i'r system les sydd wedi effeithio ar drothwyon a meini prawf cymhwysedd rhai budd-daliadau. Er gwaethaf y newidiadau hyn, gan gynnwys cyflwyno Credyd Cynhwysol yn raddol, rydym wedi ceisio sicrhau bod modd cymharu'r data cymaint â phosibl dros amser. O ganlyniad, yn gyffredinol gellir ystyried bod modd cymharu'r data dros amser. Mae rhifyn blaenorol yr [erthygl canllawiau ar ddangosyddion MALIC \(2014-2017\)](#) yn cynnwys rhagor o fanylion am gyflwyno hawlwr Credyd Cynhwysol ar gyfer y diweddariadau i ddangosyddion 2016 a 2017.

Ar gyfer MALIC 2019, rydym wedi defnyddio data o flwyddyn ariannol 2016-17 gan mai dyma'r adeg olaf cyn i wasanaeth llawn Credyd Cynhwysol ddechrau cael ei gyflwyno yng Nghymru. Dechreuodd y gwaith o gyflwyno gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol yng Nghymru ym mis Ebrill 2017. O gofio natur ddaearyddol ac amserlen hir y broses o roi'r gwasanaeth ar waith, mae gwahaniaethau rhwng Credyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol yn golygu ei bod yn bosibl nad ydym yn cymharu tebyg â'i debyg yn ystod y broses o gyflwyno'r gwasanaeth llawn. Drwy ddefnyddio data o flwyddyn ariannol 2016-17 a chynnwys achosion cynnar, syml o hawlwr Credyd Cynhwysol (a'u dibynyddion) yn unig, llwyddwyd i sicrhau data cyson ar draws ardaloedd. Er mai data o flwyddyn ariannol 2016-17 a ddefnyddiwyd ar gyfer y diweddariad i

ddangosyddion 2017 hefyd, oherwydd bod amcangyfrifon poblogaeth diwygiedig wedi'u defnyddio a bod poblogaeth y carchardai wedi'i thynnu yn 2019, ni fydd data o 2017 a 2019 o reidrwydd yn cyfateb.

Am fod Credyd Cynhwysol yn dal i gael ei gyflwyno, ni allwn ddiweddarau ein dull o fesur hawlwyrr fel procsi ar gyfer incwm isel. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar opsiynau ar gyfer dull priodol o fesur amddifadedd incwm ar gyfer mynegeion yn y dyfodol.

4.2 Y Maes Cyflogaeth

Mae'r maes cyflogaeth yn cynnwys un dangosydd (canran y boblogaeth o oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, sy'n cynnwys pedair elfen:

- Lwfans Ceisio Gwaith;
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth;
- Budd-dal Analluogrwydd (wedi'i ddisodli gan Lwfans Anabledd Difrifol)
- Credyd Cynhwysol ac nid mewn cyflogaeth

Caiff y dangosydd hwn ei fynegi fel canran o'r boblogaeth breswyl o oedran gweithio ar gyfer pob AGEHI, gyda phoblogaeth y carchardai wedi'i didynnu o'r ACEHlau sy'n cynnwys carchardai yng Nghymru.

Mae newidiadau i'r system les, gan gynnwys cyflwyno Credyd Cynhwysol yn raddol, yn golygu bod y trothwyon a'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer rhai budd-daliadau wedi newid dros amser. Er gwaethaf y newidiadau hyn, gan gynnwys cyflwyno Credyd Cynhwysol yn raddol, rydym wedi ceisio sicrhau bod modd cymharu'r data cymaint â phosibl dros amser. O ganlyniad, yn gyffredinol gellir ystyried bod modd cymharu'r data dros amser. Mae rhifyn blaenorol yr [erthygl canllawiau ar ddangosyddion MALIC \(2014-2017\)](#) yn cynnwys rhagor o fanylion am gyflwyno hawlwyrr Credyd Cynhwysol ar gyfer y diweddariadau i ddangosyddion 2016 a 2017. Ar gyfer MALIC 2019, defnyddiwyd data o flwyddyn ariannol 2016-17 gan mai dyma'r adeg olaf cyn i wasanaeth llawn Credyd Cynhwysol ddechrau cael ei gyflwyno yng Nghymru. O gofio natur ddaearyddol ac amserlen hir y broses o roi'r gwasanaeth ar waith, mae gwahaniaethau rhwng Credyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol yn golygu ei bod yn bosibl nad ydym yn cymharu tebyg â'i debyg yn ystod y broses o gyflwyno'r gwasanaeth llawn. Drwy ddefnyddio data o flwyddyn ariannol 2016-17 a oedd ond yn cynnwys achosion cynnar, syml o hawlwyrr Credyd Cynhwysol, llwyddwyd i sicrhau data cyson ar draws ardaloedd. Data o flwyddyn ariannol 2016-17 a ddefnyddiwyd ar gyfer y diweddariad i ddangosyddion 2017 hefyd. Fodd bynnag, oherwydd bod amcangyfrifon poblogaeth diwygiedig wedi'u defnyddio a bod poblogaeth y carchardai wedi'i thynnu yn 2019, ni fydd data o 2017 a 2019 o reidrwydd yn cyfateb.

Am fod Credyd Cynhwysol yn dal i gael ei gyflwyno, ni allwn ddiweddarau ein dull o fesur amddifadedd cyflogaeth. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar opsiynau ar gyfer dull priodol o fesur amddifadedd cyflogaeth ar gyfer mynegeion yn y dyfodol.

4.3 Y Maes Iechyd

Mae'r dangosyddion (sy'n ymwneud â'r boblogaeth gyfan) ym maes iechyd MALIC wedi'u safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran-rhyw er mwyn addasu ar gyfer y nifer disgwylidig o achosion o glefydau yn y

boblogaeth sylfaenol. Mae hyn yn golygu bod y Mynegai yn gallu nodi ardaloedd lle y ceir amddifadedd iechyd y tu hwnt i effaith oedran a rhyw.

Mae'r maes iechyd yn cynnwys saith dangosydd:

- Cyflyrau cronig a gofnodwyd gan feddygon teulu
- Salwch Hirdymor Cyfyngus
- Marwolaethau cynamserol
- Cyflyrau iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddygon teulu
- Achosion o Ganser
- Pwysau geni isel
- Plant 4-5 oed sy'n ordew

Diagnosis o gyflwr cronig a gofnodwyd gan feddyg teulu (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran-rhyw)

Cyflwynwyd y dangosydd hwn yn 2019 ac mae'n seiliedig ar nifer y bobl â diagnosis ar gyfer cyflyrau o restr benodol o gofrestrau clefyd ac is-ddangosyddion a gafwyd gan bractisau meddygon teulu yng Nghymru (ar 31 Mawrth 2019). Mae'n mesur nifer y bobl â diagnosis cyfredol o un neu fwy o'r cyflyrau a restrir isod:

- Clefyd Coronaidd y Galon
- Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint
- Strôc a Thrawiad Isgemig Darfodedig
- Clefyd Rhydweliol Ymylol
- Clefyd Cronig yr Arennau
- Diabetes Mellitus (math 1 ar gyfer pob oedran, math 2 a mathau eraill ar gyfer pobl 17 oed a throsodd)
- Epilepsi

Cafodd y niferoedd hyn eu datddyblygu er mwyn sicrhau nad oedd cleifion â mwy nag un cyflwr wedi'u cyfrif ddwywaith. Cafodd data ar lefel cleifion eu cyfuno i ardaloedd bach (ACEHlau), yn ôl cyfeiriadau cleifion, fel bod nifer yr achosion yn seiliedig ar ble mae pobl yn byw yn hytrach na ble maent wedi'u cofrestru â meddyg teulu. Cyflwynir y dangosydd hwn fel cyfradd fesul 100 o bobl.

Ar gyfer yr enwadur, rydym wedi defnyddio'r Amcangyfrifon Poblogaeth Ardal Fach diweddaraf sydd ar gael (canol 2018), llai poblogaeth y carchardai (2018).

Ceir rhagor o wybodaeth gefndir am y dangosydd a gwybodaeth am ansawdd data yn yr adroddiad technegol (Atodiad D). Mae hyn yn cynnwys disgrifiad o'r ffordd rydym wedi addasu ffigurau ar gyfer ardaloedd lle mae llawer o'r preswylwyr wedi'u cofrestru â darparwyr gofal sylfaenol yn Lloegr.

Salwch hirdymor cyfyngus (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran-rhyw)

Mae'r dangosydd hwn yn cwmpasu unrhyw salwch hirdymor, problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar weithgareddau bob dydd neu waith, ac mae'n cynnwys pob preswyllydd arferol. Mae'r dangosydd hwn yn

seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011 a chaiff ei fynegi fel cyfradd fesul 100 o bobl. Defnyddiwyd yr un data ar gyfer MALIC 2019 (ag ar gyfer MALIC 2014), am nad oedd unrhyw ddiweddariad o'r Cyfrifiad (nac unrhyw ffynhonnell amgen ar lefel ardaloedd bach) rhwng y ddau fynegai.

Cyfradd marwolaethau cynamserol – ar gyfer y rhai dan 75 oed) (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran-rhyw)

Cyflwynwyd y dangosydd hwn ar gyfer MALIC 2019, ac mae'n seiliedig ar 10 mlynedd o ddata marwolaethau a gofrestrwyd (cyfartaledd 2009-2018 yn 2019) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyflwynir y gyfradd marwolaethau cynamserol fel cyfradd fesul 100,000 o bobl.

Gall iechyd gwael ddod i'r amlwg mewn disgwyliad oes is, y gellir casglu gwybodaeth amdano drwy gyfraddau marwolaethau wedi'u safoni yn ôl oedran a rhyw.

Diagnosis o gyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddyg teulu (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran-rhyw)

Cyflwynwyd y dangosydd hwn ar gyfer MALIC 2019, ac mae'n seiliedig ar nifer y bobl â diagnosisau o restr benodol o gofrestrau clefyd ac is-ddangosyddion a gafwyd gan bractisau meddygon teulu yng Nghymru (ar 31 Mawrth 2019). Mae'n mesur nifer y bobl â diagnosis cyfredol o un neu fwy o'r cyflyrau a restrir isod:

- Iselder
- Iselder ysbryd (cleifion â chofnod o iselder ysbryd a phresgripsiwn amlroddadwy gweithredol ar gyfer gwrth-iselydd)
- Anhwylder gorbryder (gan gynnwys anhwylderau panig)
- Dementia
- Salwch meddwl difrifol (sgitsoffrenia, anhwylder affeithiol deubegynol a seicosisau eraill)

Cafodd y niferoedd hyn eu datddyblygu er mwyn sicrhau nad oedd cleifion â mwy nag un cyflwr wedi'u cyfrif ddwywaith. Cafodd data ar lefel cleifion eu cyfuno i ardaloedd bach (ACEHlau), yn ôl cyfeiriadau cleifion, fel bod nifer yr achosion yn seiliedig ar ble mae pobl yn byw yn hytrach na ble maent wedi'u cofrestru â meddyg teulu.

Ar gyfer yr enwadur, rydym wedi defnyddio'r Amcangyfrifon Poblogaeth Ardal Fach diweddaraf sydd ar gael (canol 2018), llai poblogaeth y carchardai (2018).

Ceir rhagor o wybodaeth gefndir am y dangosydd a gwybodaeth am ansawdd data yn yr adroddiad technegol (Atodiad D). Mae hyn yn cynnwys disgrifiad o'r ffordd rydym wedi addasu ffigurau ar gyfer ardaloedd lle mae llawer o'r preswylwyr wedi'u cofrestru â darparwyr gofal sylfaenol yn Lloegr.

Nifer yr achosion o ganser (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran-rhyw)

Mae'r dangosydd hwn yn defnyddio cyfanswm yr achosion o ganser, gan gynnwys pob achos o falaenedd, ac eithrio canser y croen nad yw'n felanoma (data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru) a data poblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r dangosydd hwn yn seiliedig ar werth deng mlynedd o ddata (2007-2016 yn MALIC 2019) ac mae wedi'i gyhoeddi'n rheolaidd ers 2008. Caiff y data eu mynegi fel cyfradd fesul 100,000 o bobl. Ni ellir cymharu data'r dangosydd dros amser mewn gwirionedd, am fod y dechneg safoni

anuniongyrchol yn defnyddio cyfraddau penodol o ran oedran-rhyw wedi'u diweddarau ar gyfer Cymru i gyfrifo cyfraddau ar gyfer ardaloedd bach.

Pwysau geni isel

Y dangosydd hwn yw canran y genedigaethau byw sengl lle mae'r pwysau geni yn llai na 2.5kg, a chaiff ei gyfrifo fel cyfartaledd 10 mlynedd, gan ddefnyddio data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gellir cymharu'r dangosydd hwn dros amser. Ar gyfer MALIC 2019, y cyfnod cyfeirio ar gyfer y data oedd 2009 i 2018.

Plant 4-5 oed sy'n ordew

Mae'r dangosydd newydd hwn ar blant sy'n ordew yn mesur cyfran y plant o oedran dosbarth derbyn (plant 4 a 5 oed) sy'n ordew. Mae'r data hyn yn seiliedig at y cyfartaledd dros chwe blynedd rhwng 2012-13 a 2017-18.

Darperir y data hyn gan lechyd Cyhoeddus Cymru, ac fe'u cesglir drwy [Raglen Mesur Plant](#) Cymru. Cyfrifir gordewdra gan ddefnyddio canraddau mynegai màs y corff sy'n benodol i oedran a rhyw (sy'n cynnwys gwybodaeth am daldra) a gyfrifir gan ddefnyddio cyfeirnod twf 1990 Prydain (UK90) (o ddull a gynigiwyd gan Cole et al (1995)). Ystyrir bod plant sydd o fewn y 95ain ganradd neu uwch yn ordew.

Y lefel isaf y mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi data'r Rhaglen Mesur Plant arni yw lefel Aardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG), yn hytrach nag AGEHI. Mae hyn i'w briodoli i bryderon ynghylch y camddefnydd posibl o ddata i nodi ardaloedd penodol lle mae'r ganran uchaf o blant gordew yn byw, a'r posibilrwydd o adnabod unigolion wrth edrych ar niferoedd bach. Am y rhesymau hyn, er bod cyfraddau lefel AGEHI yn cael eu defnyddio yng nghyfrifiadau'r maes a'r Mynegai, dim ond gwerthoedd dangosyddion ar gyfer ACEHGau a'r daearyddiaethau lefel uwch rydym yn eu cyhoeddi fel rhan o setiau data dangosyddion MALIC. Defnyddiwyd cyfeiriadau cartref disgyblion i nodi'r AGEHI lle mae plant yn byw yn hytrach nag AGEHI eu hysgol.

4.4 Y maes addysg

Mae'r maes addysg yn cynnwys chwe dangosydd:

- Sgôr pwyntiau cyfartalog y Cyfnod Sylfaen
- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2
- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer Pynciau Craidd
- Absenoldeb Mynych
- Cyfran y disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n mynd ymlaen i Addysg Uwch
- Nifer yr oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau

Bu sawl newid methodolegol i'r maes addysg rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019.

Roedd tri o'r chwe dangosydd yn y maes i'w cael yn MALIC 2014, sef:

- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2
- Absenoldeb Mynych

- Nifer yr oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau

Gellir cymharu data Cyfnod Allweddol 2 ac absenoldeb mynych dros amser.

Mae dau ddangosydd Cyfnod Allweddol 4 a oedd wedi'u cynnwys ym MALIC 2014 wedi'u disodli gan un dangosydd. Lluniwyd y dangosydd hwn gan ddefnyddio methodoleg newydd ac, felly, ni ellir ei gymharu â'r dangosyddion blaenorol a ddefnyddiwyd ym MALIC 2014.

Mae dangosydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sy'n seiliedig ar ganlyniadau asesiadau athrawon ar gyfer disgyblion a gaiff eu haddysgu yng Ngrŵp Blwyddyn 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol wedi'i gynnwys ym MALIC 2019. Bwriedir iddo ategu dangosydd Cyfnod Allweddol 2 er mwyn mesur amddifadedd addysg ar lefel ysgol gynradd.

Mae pob un o'r pedwar dangosydd y cyfeirir atynt uchod yn seiliedig ar werth tair blynedd o ddata o Flynyddoedd Academaidd 2015/16, 2016/17 a 2017/18. Daw'r data o'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), y Gronfa Ddata Casglu Data Cenedlaethol, ac ar gyfer Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 4, y Gronfa Ddata Arholiadau yng Nghymru.

Yr enwaduron a ddefnyddiwyd i gyfrifo sgoriau pwyntiau cyfartalog y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4 oedd cyfanswm nifer y disgyblion a oedd yn astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Ngrwpiau Blwyddyn 2, 6 ac 11, yn y drefn honno.

Mae'r dangosydd absenoldeb mynych yn mesur canran y disgyblion ysgol gynradd ac uwchradd sy'n colli mwy na 15% o sesiynau'r ysgol. Yr enwadur a ddefnyddiwyd i gyfrifo Absenoldeb Mynych oedd cyfanswm nifer y disgyblion ysgol gynradd ac uwchradd.

Mae'r dangosydd Cyfran y Bobl 18-19 oed sy'n mynd ymlaen i Addysg Uwch wedi'i ddisodli gan ddangosydd sy'n mesur Cyfran y Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n mynd ymlaen i Addysg Uwch. Er bod y dangosyddion hyn yn mesur pethau tebyg, ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol. Mae data ar lefel disgyblion o CYBLD wedi'u paru â data Cofnod yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) er mwyn mesur cyfran y disgyblion CA4 a aeth ymlaen i Addysg Uwch rywbrd yn ystod y tair blynedd ddilynol ar ôl gadael Blwyddyn 11. Diffinnir darpariaeth Addysg Uwch at ddibenion y dangosydd hwn fel unrhyw raglen ddysgu uwchlaw lefel 3 – h.y. mae'n cynnwys graddau israddedig, prentisiaethau uwch. Mae'r dangosydd hwn yn seiliedig ar y cyfartaledd pedair blynedd ar gyfer Blynedd Academaidd 2011/12 i 2014/15. Yr enwadur a ddefnyddiwyd yw cyfanswm nifer y disgyblion yng Ngrŵp Blwyddyn 11 y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Daw'r data ar nifer yr Oedolion heb unrhyw gymwysterau o Gyfrifiad 2011 ac, felly, nid ydynt wedi newid o gymharu â data Mynegai 2014. Caiff y dangosydd hwn ei fynegi fel canran a'r enwadur a ddefnyddiwyd yw cyfanswm y boblogaeth 25-64 oed.

4.5 Y Maes Mynediad i Wasanaethau

Mae'r maes mynediad i wasanaethau yn mesur mynediad ffisegol drwy amseroedd teithio dwyffordd cyfartalog (mewn munudau) i wyth gwasanaeth gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus a naw gwasanaeth gan ddefnyddio cludiant preifat. Mae dangosydd mynediad i wasanaethau digidol hefyd wedi'i ychwanegu ar gyfer MALIC 2019, sy'n mesur mynediad i fand eang cyflym iawn. Mae'r dangosyddion sy'n cyfrannu at y maes hwn wedi'u hamlinellu isod.

- Amser teithio cyfartalog i Fferyllfa gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus a phreifat
- Amser teithio cyfartalog i Siop Fwyd gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus a phreifat
- Amser teithio cyfartalog i Feddygfa gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus a phreifat
- Amser teithio cyfartalog i gangen o Swyddfa'r Post gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus a phreifat
- Amser teithio cyfartalog i Ysgol Gynradd gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus a phreifat
- Amser teithio cyfartalog i Lyfrgell Gyhoeddus gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus a phreifat
- Amser teithio cyfartalog i Gyfleuster Chwaraeon gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus a phreifat
- Amser teithio cyfartalog i Ysgol Uwchradd gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus a phreifat
- Amser teithio cyfartalog i Orsaf Betrol gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus a phreifat
- Diffyg argaeledd canrannol band eang ar 30Mb/e

Mynediad Ffisegol

Rydym wedi diweddarau cyfres MALIC 2014 o ddangosyddion sy'n mesur amseroedd teithio i wasanaethau allweddol. Er nad yw egwyddorion y fethodoleg ar gyfer mesur amseroedd teithio wedi newid rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019 – mae'r pecynnau cymorth technegol a ddefnyddiwyd wedi cael eu newid yn sylweddol er mwyn ceisio sicrhau bod y data yn fwy cywir a chadarn ac y gellir eu hailadrodd. Mae manylion llawn yr hyn sydd wedi newid a'r paramedrau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfrifiadau MALIC 2019 wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Technegol.

Oherwydd y gwelliannau a wnaed, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli newidiadau i werthoedd dangosyddion amseroedd teithio, na ellir eu cymharu â data hŷn mewn gwirionedd.

Ar gyfer MALIC 2019, cyfrifwyd amseroedd teithio gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus (cerdded a defnyddio bws cyhoeddus, trên cyhoeddus neu goets genedlaethol) i'r pwynt mynediad agosaf ar gyfer gwasanaeth penodol gan ddefnyddio propeR, sef cynlluniwr teithiau amlfodd, ffynhonnell agored, (ceir rhagor o wybodaeth yn [ystorfa GitHub](#)).

Cyfrifwyd amseroedd teithio gan ddefnyddio trafndiaeth breifat i'r pwynt mynediad agosaf gan ddefnyddio llyfrgell pgRouting o fewn PostGIS. Cofnodwyd y rhwydwaith cerbydol ar ffurf Rhwydwaith Priffyrdd Mastermap Arolwg Ordnans, gyda'r cyflymder cerbydol cyfartalog yn seiliedig ar Ddata Cyflymder Cyfartalog o Basemap.

Mae data cyflymder cyfartalog yn adlewyrchu'r cyflymder cerbydol cyfartalog yn ystod 2018. Cafwyd geometreg y ffyrdd, amserlenni trafndiaeth gyhoeddus a tharddiad pob gwasanaeth ym mis Mawrth 2019.

Mynediad Digidol

Cyfrifir y dangosydd mynediad digidol fel cyfran o'r cartrefi a busnesau bach na allant gael gwasanaeth band eang llinell sefydlog ar gyflymder cydamseru lawrlwytho o 30Mb/e neu fwy (band eang cyflym iawn). Mae hyn yn cynnwys eiddo heb gysylltiad band eang. Y ffynhonnell yw Adroddiad Ofcom - [Cysylltu'r Gwledydd ar gyfer Gwanwyn 2019](#).

4.6 Y Maes Tai

Diben y maes tai yw nodi tai annigonol, yn nhermau cyflwr ffisegol, amodau byw ac argaeledd. Yma, mae amodau byw yn golygu addasrwydd y tai ar gyfer y sawl sy'n byw ynddynt, er enghraifft o ran iechyd a diogelwch, ac addasiadau angenrheidiol.

Mae'r maes tai yn cynnwys dau ddangosydd:

- Mae dangosydd ar gartrefi gorlawn yn mesur canran y bobl sy'n byw mewn cartrefi gorlawn (mesur ystafelloedd gwely yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011)
- Dangosydd wedi'i fodelu newydd ar dai o ansawdd gwael. Mae'n mesur y tebygolrwydd y bydd tai mewn cyflwr gwael neu'n cynnwys peryglon difrifol (er enghraifft, y risg o gwympto neu dai oer), ac fe'i cyfrifwyd gan ddefnyddio cymysgedd o ffynonellau data arolygon a ffynonellau data gweinyddol gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE).

Cartrefi Gorlawn

Daw'r data ar bobl mewn cartrefi gorlawn o Gyfrifiad 2011 ac, felly nid ydynt wedi newid o gymharu â data 2014. Roedd y data a ddefnyddiwyd ym MALIC 2011 yn seiliedig ar ddata o Gyfrifiad 2001, ond ni ellir eu cymharu â data mwy diweddar am fod y mesur ystafelloedd gwely wedi'i newid.

Mae'r dangosydd hwn yn mesur p'un a yw cartref yn orlawn (yn seiliedig ar nifer yr ystafelloedd gwely). Defnyddir oedran aelodau'r cartref a'r berthynas rhyngddynt i nodi nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen arnynt, yn seiliedig ar fformiwla safonol. Gweler [Adroddiad Technegol MALIC 2019](#) am ragor o fanylion.

Tai o Ansawdd Gwael

Ym MALIC 2019, mae'r maes tai yn cyflwyno dangosydd wedi'i fodelu newydd ar dai o ansawdd gwael. Mae'r dangosydd hwn yn helpu i nodi cyflwr ffisegol tai ac amodau byw. Dyma'r tro cyntaf y mae data wedi'u modelu wedi cael eu defnyddio mewn unrhyw un o feysydd MALIC ac mae wedi gwella'r ystod o wybodaeth am dai sydd ar gael yn yr ardal leol. Fodd bynnag, un o anfanteision defnyddio data wedi'u modelu yn barhaus yw'r cyfyngiad posibl ar y gallu i adlewyrchu effaith ymyriadau diweddar neu newidiadau eraill. Os yw'n llywio penderfyniadau, dylid defnyddio data wedi'u modelu ochr yn ochr â data neu wybodaeth leol gadarn gyfredol lle y bo'n bosibl.

Cyfrifir y dangosydd newydd gan ddefnyddio model sy'n seiliedig ar ddata arolygon, sy'n gwneud rhagfynegiadau probabilaidd am anheddau ar lefel unigolyn yng Nghymru, gan ddefnyddio amrywiaeth o setiau data gweinyddol fel mewnbynnau. Gweler [Adroddiad Technegol MALIC 2019](#) am ragor o fanylion.

Mae hyn yn ein galluogi i amcangyfrif y tebygolrwydd y bydd anheddau mewn ardal benodol:

- yn cynnwys un o beryglon Categori 1 ar gyfer oerni gormodol, cwympto neu beryglon eraill o dan y [System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai \(HHSRS\)](#)
- neu mewn cyflwr gwael

Ystyrir bod annedd yn cynnwys un o beryglon Categori 1 mewn perthynas ag oerni gormodol os oes bygythiad difrifol yn sgil tymereddau mewnol anfoddhaol. Ystyrir bod annedd yn cynnwys un o beryglon

Categori 1 mewn perthynas â chwympo os ystyrir bod risg ddifrifol o gwympo ar risiau, rhwng lefelau, arwynebau gwastad neu gwympo wrth ddefnyddio cawod, bath neu gyfleuster tebyg.

Dywedir bod annedd mewn cyflwr gwael os bydd o leiaf un o gydrannau allweddol yr adeilad yn hen a bod angen ei hadnewyddu neu ei hatgyweirio'n sylweddol oherwydd ei chyflwr; neu os bydd mwy nag un o gydrannau eraill yr adeilad yn hen a bod angen eu hadnewyddu neu eu hatgyweirio'n sylweddol.

Noder ei bod yn ofynnol i dai cymdeithasol gynnal [Safon Ansawdd Tai Cymru](#) (SATC) ac, felly, mewn ardaloedd lle mae cyfran uwch o dai cymdeithasol, mae'r data wedi'u modelu yn dueddol o ddangos tebygolrwydd is o dai o ansawdd gwael.

4.7 Y Maes Diogelwch Cymunedol

Diben y Maes Diogelwch Cymunedol yw mesur amddifadedd mewn perthynas â byw mewn cymuned ddiogel. Mae'r maes diogelwch cymunedol yn cynnwys chwe dangosydd, sydd wedi'u hamlinellu isod. Mae'r rhain yn deillio o Heddluoedd Cymru (oni nodir fel arall) ac maent yn cynnwys:

- Difrod Troseddol a Gofnodwyd gan yr Heddlu
- Troseddau Treisgar a Gofnodwyd gan yr Heddlu
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Gofnodwyd gan yr Heddlu
- Bwrgleriaethau a Gofnodwyd gan yr Heddlu
- Achosion o Ddwyn a Gofnodwyd gan yr Heddlu
- Digwyddiadau Tân

Caiff pob un o'r dangosyddion eu mynegi fel cyfraddau, gyda'r rhifiadur yn cynnwys nifer y troseddau/digwyddiadau/tanau fesul AGEHI (wedi'i gyfartaleddu dros ddwy flynedd) a'r enwadur yn cynnwys nifer y bobl/eiddo yn yr AGEHI.

Gwnaed mân newidiadau i'r fethodoleg ar gyfer llunio'r rhifiaduron ar gyfer achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer MALIC 2019. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys mabwysiadu'r un dechneg gyfuno ddaearyddol a'r un dechneg gyfyngu ag a ddefnyddiwyd ym Maes Troseddau Mynegai Amddifadedd Lloegr 2019. Mae'r broses sicrhau ansawdd ddau gam gyda'r heddluoedd hefyd yn adlewyrchu'r un a fabwysiadwyd ym Maes Troseddau Mynegai Amddifadedd Lloegr 2019.

Hefyd, ers cyhoeddi MALIC 2014, gwnaed mân newidiadau i'r categorïau manwl sy'n cynnwys pob un o'r dangosyddion troseddau a gofnodwyd a'r ffordd y caiff rhai troseddau eu dosbarthu. Fodd bynnag, gellir ystyried o hyd bod modd cymharu'r data'n fras â data a gyhoeddwyd cyn 2019. I gael rhagor o wybodaeth am newidiadau methodolegol, cyfeiriwch at Adroddiad Technegol MALIC 2019.

4.8 Maes yr Amgylchedd Ffisegol

Diben y maes hwn yw mesur ffactorau yn yr ardal leol a all effeithio ar lesiant neu ansawdd bywyd y rhai sy'n byw mewn ardal. Mae maes yr amgylchedd ffisegol yn cynnwys y tri is-faes canlynol:

- Ansawdd Aer (tri dangosydd)
- Perygl Llifogydd (un dangosydd)

- Mannau Gwyrdd (dau ddangosydd)

Bu sawl newid methodolegol i faes yr amgylchedd ffisegol rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019.

Ym MALIC 2014, roedd yr is-faes Ansawdd Aer yn cynnwys dau ddangosydd – sef Crynodiadau Aer ac Allyriadau Aer – a gyfrifwyd gan ddefnyddio cyfuniad o ddata crynodiadau ar gyfer nifer o lygryddion ac Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Symleiddiwyd yr is-faes ar gyfer MALIC 2019 ac mae bellach yn cynnwys tri dangosydd sy'n seiliedig ar y gwerthoedd crynodiad cyfartalog wedi'u pwysoli yn ôl y boblogaeth ar gyfer y llygryddion allweddol canlynol:

- Nitrogen deuocsid (NO_2)
- Gronynnau $< 10 \mu\text{m}$ (PM_{10})
- Gronynnau $< 2.5 \mu\text{m}$ ($\text{PM}_{2.5}$)

Mae is-faes Mannau Gwyrdd wedi'i gynnwys ym MALIC 2019 yn lle'r is-faes Agosrwydd at Safleoedd Gwaredu Gwastraff a Safleoedd Diwydiannol. Mae'r is-faes hwn yn cynnwys dau ddangosydd, sef:

- Agosrwydd at fan gwyrdd naturiol hygrych – sy'n mesur cyfran y cartrefi sydd o fewn 300 metr i fan gwyrdd naturiol hygrych
- Sgôr ar gyfer mannau gwyrdd amgylchol – sy'n mesur Mynegai Llystyfiant â Gwahaniaeth wedi'i Normaleiddio (NDVI) cymedrig cartrefi.

Cafwyd yr is-faes Perygl Llifogydd ar gyfer MALIC 2019 o set ddata o Asesu Perygl Llifogydd yng Nghymru (FRAW) a ddatblygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r data hyn yn cynnwys gwybodaeth am y perygl o lifogydd o afonydd, y môr a llifogydd dŵr wyneb. Mae hyn yn wahanol i MALIC 2014 lle nad oedd data cyfrifo'r is-faes Perygl Llifogydd yn cynnwys llifogydd dŵr wyneb.

Dangosyddion Ansawdd Aer

Mae'r is-faes Ansawdd Aer yn cynnwys tri dangosydd ar wahân sy'n mesur crynodiadau o lygryddion allweddol. Maent wedi cael eu llunio drwy ddefnyddio mesuriadau llygryddion a allai gael effeithiau negyddol ar iechyd pobl a/neu'r amgylchedd, yn seiliedig ar y ddealltwriaeth feddygol a gwyddonol orau, ac fe'u cynigir fel mesur procsi o ansawdd yr amgylchedd oddi amgylch. Mae ansawdd aer gwael yn awgrymu agosrwydd at weithgareddau penodol megis traffig, hylosgi domestig a safleoedd diwydiannol – sef gweithgareddau a allai gael effaith negyddol ar ansawdd bywyd, yr amgylchedd lleol ac iechyd.

Dangosyddion mannau gwyrdd

Mae'r is-faes Mannau Gwyrdd yn cynnwys dau ddangosydd sy'n mesur agosrwydd at fan gwyrdd naturiol hygrych a sawl man gwyrdd amgylchol sydd ar gael. Po uchaf yw'r gwerth NDVI, y mwyaf o fannau gwyrdd amgylchol sydd yn yr ardal ddaearyddol honno.

5 Data poblogaeth

Caiff nifer o ddangosyddion MALIC eu cyflwyno fel cyfradd, boed hynny fel canran, fesul cant neu fesul can mil. Er mwyn cyfrifo'r cyfraddau hyn, defnyddir amrywiaeth o sylfeini poblogaeth fel enwaduron. Mae'r prif rai wedi'u hamlinellu isod, ynghyd â gwybodaeth am ble i ddod o hyd i ddata ar eu cyfer. Mae Tabl 6 yn yr atodiad yn disgrifio'r enwaduron a ddefnyddiwyd i gyfrifo dangosyddion MALIC 2019, gan gynnwys y cyfnodau cyfeirio a ddefnyddiwyd ar gyfer pob un.

5.1 Cyfrifiad 2011

Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell fwyaf cyflawn o wybodaeth am y boblogaeth sydd ar gael. Dyma'r unig arolwg sy'n rhoi darlun manwl o'r boblogaeth gyfan, ac mae'n unigryw am ei fod yn cwmpasu pawb ar yr un pryd ac yn gofyn yr un cwestiynau ym mhobman. Mae hyn yn ei gwneud hi'n hawdd cymharu rhannau gwahanol o'r wlad. Fodd bynnag, oherwydd ei faint, dim ond bob deng mlynedd y caiff y Cyfrifiad ei gynnal.

Mae'r cyfrifiad diweddaraf (ym mis Ionawr 2021) yn darparu amcangyfrifon o nodweddion pob unigolyn a chartref yn y DU ar ddiwrnod y cyfrifiad, sef 27 Mawrth 2011. Mae'r cyfrifiad yn darparu ystadegau ar lefel genedlaethol yn ogystal â lleol ar gyfer y nodweddion hyn, gan gynnwys daearyddiaethau llai megis y rhai a ddefnyddir ar gyfer MALIC.

Mae rhywfaint o ddata o Gyfrifiad 2011 ar gael ar [wefan StatsCymru](#).

Mae amrywiaeth eang o wybodaeth o Gyfrifiad 2011 ar gael ar [wefan SYG](#).

Mae amrywiaeth fwy cyflawn o wybodaeth ar gyfer ardaloedd bach ar gael ar [wefan NOMIS](#), sy'n galluogi'r defnyddiwr i ymholi'r data ar gyfer amrywiaeth o ddaearyddiaethau a dangosyddion.

5.2 Amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn llunio amcangyfrifon o boblogaeth breswyl Cymru a Lloegr, sy'n dangos nifer y bobl sy'n byw yng Nghymru, Lloegr, rhanbarthau Lloegr, awdurdodau lleol ac ardaloedd bach yn ôl oedran a rhyw, ar 30 Mehefin bob blwyddyn. Lluniwyd amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bach ar gyfer y cyfnod rhwng canol 2001 a chanol 2018, gyda'r ACEHlau yn seiliedig ar ffiniau cyfrifiad 2011.

Mae amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bach ar gyfer pob AGEHI yng Nghymru ar gyfer blynnyddoedd o ganol 2001 ymlaen yn ôl grŵp oedran ar gael ar [wefan StatsCymru](#).

Mae amcangyfrifon manylach, yn ôl blwyddyn oedran unigol (hyd at 89 oed, yna wedi'u grwpio ar gyfer 90 oed a throsodd), ar gael ar [wefan SYG](#).

Mae Tabl 6 yn yr atodiad yn disgrifio'r enwaduron a ddefnyddiwyd i gyfrifo dangosyddion MALIC 2019, gan gynnwys y cyfnodau cyfeirio ar gyfer y rhai hynny lle y caiff amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bach eu defnyddio. Mae'r cyfnodau cyfeirio'n amrywio ar draws data'r dangosyddion, gyda rhai ond yn cynnwys data un flwyddyn, ac eraill yn cynnwys data sawl blwyddyn. Noder hefyd y cafodd y grŵp poblogaeth perthnasol ei ddiffinio yn ôl oedran ar gyfer rhai o'r dangosyddion (e.e. defnyddiwyd y boblogaeth o 'oedran gweithio' ar gyfer y maes cyflogaeth).

Fel y disgrifir mewn adrannau uchod, ar gyfer rhai o'r dangosyddion, gan gynnwys yn y meysydd incwm, cyflogaeth ac iechyd, lle y bo'n briodol mae poblogaeth y carchardai ar gyfer y cyfnod cyfeirio priodol wedi'i thynnu o'r amcangyfrifon poblogaeth ym MALIC 2019.

5.3 Data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

CYBLD yw'r cyfrifiad blynyddol o ddisgyblion ym mhob ysgol ledled Cymru, gan gynnwys y rhai hynny o oedran ysgol anstatudol (h.y. 5-16 oed). Mae'n cynnwys ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac annibynnol, ac mae'n seiliedig ar y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ar ddiwrnod y cyfrifiad ysgolion ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Caiff llawer o'r dangosyddion ar gyfer y maes addysg eu cyfrifo gan ddefnyddio data CYBLD ar gyfer y grŵp oedran perthnasol. Mae data CYBLD wedi'u dadansoddi yn ôl grŵp oedran, rhywedd, ysgol, math o bresenoldeb (h.y. rhan amser neu amser llawn), awdurdod lleol ac etholaeth ar gael ar [wefan StatsCymru](#).

6 Data ar gyfer gwledydd eraill y DU

Mae Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn llunio mynegeion amddifadedd ar gyfer eu priod ardaloedd hefyd. Mae'r dull egwyddor yn debyg i'r un ar gyfer MALIC. Serch hynny, mae yna wahaniaethau o ran y fethodoleg fanwl rhwng pob un o'r allbynnau. Fel gyda MALIC, gellir cael gafael ar ddata ar gyfer y dangosyddion ym mhob mynegai. Serch hynny, byddai'n ddoeth darllen y nodiadau, y diffiniadau a'r wybodaeth gysylltiedig ar gyfer pob set ddata er mwyn cadarnhau i ba raddau y gellir ei chymharu â data o MALIC. Mae gwahaniaethau cyffredinol mewn mynegeion ledled y DU wedi'u hamlinellu mewn [erthygl ar wefan nationalarchives.gov.uk](#).

6.1 Lloegr

[Mynegeion Amddifadedd diweddaraf Lloegr](#): gan gynnwys dangosyddion sylfaenol ac enwaduron poblogaeth.

Cyhoeddwyd data cymaradwy ar amddifadedd incwm a chyflogaeth ledled Cymru a Lloegr ym mis Rhagfyr 2020.

Mae "[Indices of Deprivation 2019: income and employment domains combined for England and Wales](#)" Ystadegau Gwladol wedi'u cyhoeddi ar gov.uk. Gall yr ystadegau hyn fod yn ddefnyddiol i'r rhai sydd â diddordeb penodol mewn mesurau Cymru a Lloegr gyfan o amddifadedd ardal leol.

Mae'r allbynnau'n cynnwys taenlen o gyfraddau amddifadedd incwm a chyflogaeth a safleoedd ar gyfer ardaloedd bach ledled Cymru a Lloegr, gan adlewyrchu'r sefyllfa yn 2015-16. Mae'r rhain yn ddangosyddion wedi'u mesur yn uniongyrchol sy'n deillio o nifer y bobl sy'n cael budd-daliadau penodol, credydau treth neu gymorth arall gan y Llywodraeth, ac maent yn ein galluogi i ddadansoddi data cymaradwy ar draws ardaloedd bach yn y ddwy wlad am y tro cyntaf.

Mae'r data yn wahanol i'r mesurau swyddogol ar wahân o amddifadedd cymharol yng Nghymru a Lloegr, ac yn eu hategu. Ar gyfer ardaloedd yng Nghymru, mae'r dangosyddion amddifadedd incwm a chyflogaeth yn debyg iawn ond nid yn union yr un peth â'r data a ddefnyddir ar gyfer meysydd Incwm a Chyflogaeth MALIC. Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae'r data hyn yn cymharu â data a ddefnyddir yn MALIC yn y [nodyn cyfarwyddyd ynghylch y data cyfunol ledled Cymru a Lloegr](#).

6.2 Yr Alban

[Mynegai Amddifadedd Lluosog diweddaraf yr Alban](#): gan gynnwys dangosyddion sylfaenol ac enwaduron poblogaeth.

6.3 Gogledd Iwerddon

[Mesur amddifadedd lluosog diweddaraf Gogledd Iwerddon](#): gan gynnwys dangosyddion sylfaenol ac enwaduron poblogaeth.

7 Newidiadau i Ffiniau ACEHlau

7.1 Yr Uned Ddaeryddol

Yr ardaloedd daearyddol a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo MALIC 2019 yw'r 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau). Mae ACEHlau wedi'u defnyddio fel yr uned ddaearyddol ym mhob MALIC ers 2005. Mae ACEHlau yn cynrychioli ardaloedd bach, pob un ohonynt â phoblogaeth o tua 1,600 o bobl.

Mae Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd yn cyfrifo eu mynegeion ar lefel uned ddaearyddol yr AGEHI, tra bod yr Alban yn defnyddio parthau data o tua 700 i 800 o bobl.

7.2 Newidiadau rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011

Nod y daearyddiaethau ystadegol a ddefnyddir ar gyfer y cyfrifiad yw sicrhau nad yw ffiniau'n newid yn sylweddol rhwng pob cyfrifiad. Serch hynny, caiff ffiniau rhai AGEHI eu diwygio yn dilyn pob Cyfrifiad, er mwyn ystyried newidiadau mewn poblogaeth. Cynhaliwyd y cyfrifiad diwethaf yn 2011. Mae MALIC 2019 yn seiliedig ar y ffiniau AGEHI a ddefnyddiwyd ar gyfer MALIC 2014. Roedd MALIC 2011 yn seiliedig ar y ffiniau blaenorol, a ffurfiwyd ar ôl Cyfrifiad 2001. Ceir manylion llawn y newidiadau i ffiniau rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014 yn [Adroddiad Technegol MALIC 2014](#).

7.3 Newidiadau i ddyraniadau codau post i AGEHlau

Caiff data ar gyfer rhai dangosyddion eu cynhyrchu o ddata codau post a gaiff eu mapio i ACEHlau gan ddefnyddio cyfeirnod grid canolbwynt codau post a bwysolwyd yn ôl y boblogaeth (a elwir yn ffit orau). Felly, caiff codau post eu dyrannu i'r AGEHI lle mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth ar gyfer y cod post hwnnw yn byw. Mae angen y dull ffit orau hwn oherwydd gall codau post weithiau gael eu rhannu'n ddwy AGEHI neu fwy. Ar ddechrau 2016, cafodd rhai codau post eu dyrannu i ACEHlau gwahanol yn dilyn gwelliannau i'r broses o ddyrannu cyfeirnodau grid gan yr Arolwg Ordians. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd y newidiadau hyn wedi arwain at newidiadau amlwg i ddata, ond mewn rhai achosion mae'r newidiadau'n fwy amlwg. Er enghraifft, gellir gweld mwy o effaith ar gyfraddau marwolaethau os oes cartref gofal mewn cod post a ddyrennir i AGEHI wahanol.

8 Gair i Gall

Mae'r ffeithlun canlynol o'r canllawiau ar MALIC yn rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer dadansoddi data safleoedd MALIC:

Gallwch

Gellir defnyddio MALIC er mwyn:

- Adnabod yr ardaloedd bach mwyaf ddifreintiedig
- Cymharu amddifadedd cymharol ardaloedd bach
- Edrych ar yr 8 maes (math) o amddifadedd ar gyfer ardaloedd bach
- Cymharu cyfran yr ardaloedd bach mewn ardal fwy sy'n ddifreintiedig iawn
- Defnyddio data dangosyddion (ond nid y safleoedd) i gymharu newid absoliwt dros amser

llyw.cymru/mallic

WG39304 © Hawffaint y Goron 2019

Peidiwch

Ni ellir defnyddio MALIC er mwyn:

- Mesur pa mor ddifreintiedig yw ardal fach, neu faint yn fwy nag ardal arall
- Defnyddio safleoedd i awgrymu newid absoliwt dros amser (gan eu bod yn fesurau cymharol)
- Pennu pobl ddifreintiedig – nid yw pawb sy'n ddifreintiedig yn byw mewn ardal ddifreintiedig
- Cymharu â gwledydd eraill yn y DU - mae pob gwlad yn mesur amddifadedd ychydig yn wahanol
- Mesur digonedd (nid yw diffyg amddifadedd yr un fath â chael digonedd)

Fodd bynnag, mae'r cyfarwyddiadau ar gyfer data dangosyddion yn wahanol.

8.1 Cymariaethau uniongyrchol

- ✓ GALLWCH gymharu data rhwng daearyddiaethau gwahanol, e.e. rhwng un ardal Awdurdod Lleol neu AGEHI ac un arall.
- ✗ PEIDIWCH ag anghofio am newidiadau mewn daearyddiaeth – e.e. ni fydd modd cymharu rhai ACEHlau dros amser os yw eu ffiniau wedi newid.
- ✗ PEIDIWCH ag anwybyddu'r effaith y gall presenoldeb grwpiau poblogaeth penodol ei chael ar ardaloedd gwahanol, e.e. myfyrwyr.

8.2 Cymharu dros amser

- ✓ GALLWCH gymharu dangosyddion dros amser, OND ...
- ✗ PEIDIWCH ag anwybyddu'r newidiadau i ddiffiniadau dangosyddion.
- ✗ PEIDIWCH ag anwybyddu newidiadau i ffiniau daearyddol.
- ✗ PEIDIWCH ag anghofio cadarnhau amrywiadau rhwng blynyddoedd a achosir gan niferoedd bach yn y cyfrif ar gyfer y dangosydd neu'r sylfaen poblogaeth.

8.3 Cymharu dangosyddion

- ✓ GALLWCH ystyried dangosyddion gwahanol – e.e. perfformiad amrywiaeth o ddangosyddion dros amser neu mewn ardal benodol.
- ✗ PEIDIWCH ag anghofio cadarnhau pa gyfeiriad a ystyrir yn gadarnhaol – e.e. mae sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 uwch yn beth cadarnhaol, ac mae sgôr absenoldeb mynych uwch yn beth negyddol.
- ✗ PEIDIWCH ag anghofio gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod beth mae pob dangosydd yn ei fesur mewn gwirionedd.

8.4 Cymharu â data amddifadedd

- ✓ GALLWCH gymharu data â data amddifadedd cyffredinol MALIC.

- ✓ GALLWCH ddefnyddio'r [data ar ddegfedau amddifadedd ar wefan StatsCymru](#) i wneud hyn.
- ✗ PEIDIWCH ag anghofio bod y dangosyddion eu hunain yn bwydo i mewn i'r mesur amddifadedd cyffredinol hwn (gyda gwahanol bwysoliad fesul maes a dangosydd).
- ✗ PEIDIWCH ag anghofio am y cyfnod cyfeirio ar gyfer data'r dangosydd amddifadedd.
- ✗ PEIDIWCH â chymharu safleoedd Mynegai dros amser.

8.5 Cymharu rhwng grwpiau oedran

- ✓ GALLWCH gymharu gwerthoedd dangosyddion rhwng grwpiau oedran gwahanol.
- ✗ PEIDIWCH ag anghofio bod dangosyddion gwahanol yn defnyddio rhaniadau oedran gwahanol.
- ✗ PEIDIWCH ag anghofio cadarnhau amrywiadau rhwng blynyddoedd a achosir gan niferoedd bach yn y cyfrif ar gyfer y dangosydd neu'r sylfaen poblogaeth (gall hyn fod yn arbennig o berthnasol ar gyfer bandiau oedran cul).


9 Enghreifftiau o ddadansoddiadau

Mae rhai ffynonellau sy'n bodoli eisoes o ddadansoddiadau o ddata dangosyddion MALIC y gellir eu defnyddio fel enghreifftiau. Mae'r rhain yn ychwanegol at yr Astudiaeth Achos a gyflwynir yn adran 10 o'r canllawiau hyn.


9.1 Cyflwyniadau blas ar ddadansoddi data dangosyddion (Slideshare) (2017)

Yn dilyn y diweddariad i ddata dangosyddion 2017, cyhoeddwyd cyfres o gyflwyniadau ar wefan slideshare i roi blas ar y broses o ddadansoddi'r data. Cynhaliwyd dadansoddiad o amddifadedd incwm a chyflogaeth a chyfraddau cyflawniad ac absenoldeb mewn ardaloedd bach ledled Cymru. Yn ogystal â helpu defnyddwyr i ddehongli'r data, mae'r cyflwyniadau hefyd yn darparu enghreifftiau o ffyrdd y gellir dadansoddi'r data. Gellir dod o hyd i'r cyflwyniadau o dan yr adran adroddiadau ar dudalen y [diweddariad i ddata dangosyddion MALIC \(2017\)](#) ar llyw.cymru/mallic.

Isod ceir dwy sleid enghreifftiol o'r cyflwyniad ar amddifadedd incwm yng Nghymru:



Mae gan dros draean o'r 1,909 ardal fach gyfradd amddifadedd incwm yn fwy na 10% ond yn llai nag 20%



Isod ceir dau sleid enghreifftiol o'r cyflwyniad ar ddangosyddion Addysg yng Nghymru:

Gan ystyried y 10 ardal fach yng Nghymru gyda'r **cyfraddau absenoliaeth mynych uchaf** rhwng 2013/14 ac 2015/16, roedd:

6 yn Ne Ddwyrain Cymru, 3 yng Ngogledd Cymru & yng Ngorllewin Cymru

Y 10 ardal fach yng Nghymru gyda'r cyfraddau absenoliaeth mynych uchaf

Enw'r ardal fach (Ardal Cynnyrch Eang Haen Is)	Cyfradd absenoliaeth mynych
Cwmynysgol, yn Nhorfaen	22
Queensferry, yn Sir Fflint	19
Rhyl Gorllewin 3, yn Sir Ddinbych	17
Trefforest 3, yn Rhondda Cynon Taf	17
Penrhwi-ceiber 1, yn Rhondda Cynon Taf	17
Parc Tredegar 2, yng Nghasnewydd	16
Penydarren 1, ym Merthyr Tydfil	16
Rhyl Gorllewin 1, yn Sir Ddinbych	16
Liswerry 5, yng Nghasnewydd	16
Hwlfordd: Garth 2, yn Sir Benfro	15

Nodyn: Mae'r cyfraddau absenoliaeth mynych yn seiliedig ar y digybllan sy'n coll 15% neu fwy o sesiynau hanner diwrnod ysgol

Isod ceir dwy sleid enghreifftiol o'r cyflwyniad ar amddifadedd cyflogaeth yng Nghymru:

Mae yna 1,909 o ardaloedd bach yng Nghymru sydd â phoblogaeth o tua 1,600.


Mewn **35** o'r ardaloedd hyn, mae

25% neu fwy o'r boblogaeth oedran gweithio mewn amddifadedd cyflogaeth.



Pa grwpiau oedran sydd â'r cyfraddau uchaf yn y ardaloedd hyn?

Cyfraddau amddifadedd cyflogaeth gyfartalog ar gyfer pob grŵp oedran ar gyfer y 35 o ardaloedd bach gyda chyfradd gyffredinol amddifadedd cyflogaeth o 25% neu uwch, 2016-17



Mae grwpiau oedran hyn yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd cyflogaeth yn yr ardaloedd hyn

Fodd bynnag, yn **Rhyl Gorllewin 2**, roedd **74%** o'r grŵp oedran **35 i 39** mewn amddifadedd cyflogaeth ac yng **Nglyn (Conwy) 2**, roedd hyn yn wir am **42%** o'r grŵp oedran **19 i 24**.



9.2 Dadansoddi Amddifadedd Plant yn ôl Ardal (Dangosyddion MALIC 2014)

Ar 1 Rhagfyr 2015, cyhoeddwyd Erthygl Ystadegol a oedd yn dangos sut mae amddifadedd plant yn amrywio ledled Cymru, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion MALIC 2014 ar gyfer y grwpiau oedran perthnasol. Gellir dod o hyd i'r dadansoddiad hwn o amddifadedd plant o dan yr adran adroddiadau ar dudalen [MALIC 2014 \(diweddariad llawn i'r mynegai, ynghyd â safleoedd\) ar llyw.cymru/mallc](#). Caiff erthygl newydd ar blant ifanc sydd mewn amddifadedd yn seiliedig ar amrywiaeth o ddata dangosyddion MALIC 2019 ei chyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf, fel y nodir yn adran 2.3.

9.3 Dadansoddi'r Maes Mynediad i Wasanaethau yn ôl y math o anheddiad (Dangosyddion MALIC 2014)

Mae'r allbwn hwn yn darparu dadansoddiad o ddata MALIC 2014 er mwyn archwilio ardaloedd lle y gall fod problemau o ran cael mynediad i wasanaeth. Mae'n ystyried y safleoedd amddifadedd ar gyfer y maes Mynediad i Wasanaethau a'r amseroedd teithio a ddefnyddir wrth lunio'r safleoedd. Gellir dod o hyd i'r [dadansoddiad o'r maes mynediad i wasanaethau yn ôl y math o anheddiad ar llyw.cymru](#).

9.4 MALIC 2014: Canllaw ar ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig Diwygiedig

Cyhoeddwyd yr erthygl hon ochr yn ochr â MALIC 2014, ac mae'n edrych ar y broses o ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig, gan ystyried maint yr anheddiad. Mae adrannau 8 a 9 o'r adroddiad hwn yn edrych yn benodol ar y broses o ddadansoddi data dangosyddion y maes Mynediad i Wasanaethau a'r maes Incwm. Gellir dod o hyd i ddadansoddiad 2014 o amddifadedd plant o dan yr adran adroddiadau ar dudalen [MALIC 2014 \(diweddariad llawn i'r mynegai gyda graddfeydd\) ar llyw.cymru/mallc](#). Caiff yr erthygl hon ei diweddarau yn unol â data MALIC 2019 yn 2021.

9.5 Sut i ddadansoddi yn ôl grŵp amddifadedd

Er mwyn crynhoi a dadansoddi data sy'n cynrychioli 1,909 o ACEHlau, gellir defnyddio dulliau ystadegol i grwpio'r data. Er enghraifft, gellir gwneud hyn gan ddefnyddio deigraddau, cwintellau, neu grwpiau amddifadedd MALIC. Ceir manylion yn y tabl isod.

Tabl 2: Safleoedd MALIC mewn grwpiau gwahanol


Safle	Grŵp deigradd	Grŵp cwintel	Grŵp amddifadedd
1 - 191	1 (10% mwyaf difreintiedig)	1 (20% mwyaf difreintiedig)	1 (10% mwyaf difreintiedig)
192 - 382	2 (10-20% mwyaf difreintiedig)	1 (20% mwyaf difreintiedig)	2 (10-20% mwyaf difreintiedig)
383 - 573	3 (20-30% mwyaf difreintiedig)	2 (20-40% mwyaf difreintiedig)	3 (20-30% mwyaf difreintiedig)
574 - 764	4 (30-40% mwyaf difreintiedig)	2 (20-40% mwyaf difreintiedig)	4 (30-50% mwyaf difreintiedig)
765 - 955	5 (40-50% mwyaf difreintiedig)	3 (40-60% mwyaf difreintiedig)	4 (30-50% mwyaf difreintiedig)
956 - 1146	6 (50-60% mwyaf difreintiedig)	3 (40-60% mwyaf difreintiedig)	5 (50% lleiaf difreintiedig)
1147 - 1337	7 (60-70% mwyaf difreintiedig)	4 (60-80% mwyaf difreintiedig)	5 (50% lleiaf difreintiedig)
1338 - 1528	8 (70-80% mwyaf difreintiedig)	4 (60-80% mwyaf difreintiedig)	5 (50% lleiaf difreintiedig)
1529 - 1719	9 (80-90% mwyaf difreintiedig)	5 (20% lleiaf difreintiedig)	5 (50% lleiaf difreintiedig)
1720 - 1909	10 (10% lleiaf difreintiedig)	5 (20% lleiaf difreintiedig)	5 (50% lleiaf difreintiedig)

Mae'r grwpiau o ddegraddau (a chwintellau) yn rhannu'r ardaloedd yn 10 (a 5) grŵp sy'n gyfartal yn fras. Gan fod 1,909 o ACEHlau yng Nghymru, nid yw'r grwpiau hyn yn cynnwys yn union yr un nifer o ardaloedd.

Defnyddir y Grwpiau Amddifadedd ym mhrif ddadansoddiadau MALIC, gan gynnwys mapiau. Maent wedi'u cynllunio i gynnwys grwpiau llai ar ben mwy difreintiedig y dosbarthiad, lle mae'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd yn fwy nag ar y pen llai difreintiedig. Er mwyn dangos y nodwedd amddifadedd hon mewn dangosyddion, mae'r siart isod yn dangos sut y caiff canran y bobl sydd mewn amddifadedd incwm ei dosbarthu yn ôl safle'r maes incwm. Noder:

- mae cyfraddau amddifadedd yn cynyddu'n gyflym ar ben mwyaf difreintiedig y dosbarthiad (mae'n bosibl mai dim ond newidiadau bach i safleoedd fydd yn deillio o newidiadau mawr yng ngwerth y dangosydd)
- ar y pen llai difreintiedig, mae'r cromlin yn fwy gwastad, a gallai mân newidiadau i werthoedd y dangosydd arwain at newidiadau mawr i'r safleoedd
- gwelir siâp 'cromlin-s' y dosbarthiad i raddau mwy neu lai ym mhob un o'r dangosyddion amddifadedd.

Ffigur 3: Dosbarthiad meysydd incwm MALIC 2019



Gellir defnyddio'r dull hwn o grwpio ar gyfer y mynegai cyffredinol, y maes neu'r dangosydd unigol dan sylw. Er enghraifft, gellir gweld a yw ardal yn y 10 y cant “gwaethaf” o ardaloedd ar gyfer y dangosydd ar nifer yr oedolion 25-64 oed heb unrhyw gymwysterau, a chymharu hyn â'i safle yn erbyn dangosydd arall megis amddifadedd cyflogaeth.

Yn fras, dyma'r dull nodweddiadol:

- Rhestru ACEHlau (1-1909) yn unol â gwerthoedd y dangosydd dan sylw, o'r mwyaf difreintiedig i'r lleiaf difreintiedig.
- Penderfynu ar y categorïau i'w defnyddio a neilltuo categori i bob AGEHI, e.e. lle y defnyddir degraddau, byddai'r categori cyntaf (y 10 y cant mwyaf difreintiedig) fel arfer yn cynnwys ACEHlau wedi'u rhestru o 1 i 191.
- Lle ceir gwerthoedd cyfartal (e.e. lle mae gan yr ACEHlau sydd wedi'u graddio'n 191 a 192 yr un gwerth dangosydd) yna caiff ACEHlau fel arfer eu neilltuo i'r categori mwy difreintiedig (felly byddai AGEHI 192 yn cael ei chynnwys yn ein “10 y cant mwyaf difreintiedig”).

Mae rhai o'r mathau o ddadansoddiadau sy'n bosibl wedyn yn cynnwys:

- Mapiau thematig, gan ddefnyddio arlliw gwahanol ar gyfer pob categori:
- Croesdabiau o ACEHlau yn ôl dau gategori gwahanol, e.e. dau faes amddifadedd gwahanol, neu ddangosydd mewn dau gyfnod amser gwahanol.
- Plot blychau o werthoedd dangosyddion yn ôl categori, er enghraifft plotio lledaeniad cyfraddau troseddau treisgar o fewn categorïau amddifadedd y maes incwm.
- Ar ôl paru ACEHlau ag awdurdodau lleol (neu ddaearyddiaethau uwch eraill), tablu cyfran yr ACEHlau sy'n perthyn i bob categori.

- Cyflwyno plot blychau o ledaeniad gwerthoedd ar gyfer ACEHlau ym mhob awdurdod lleol.

9.6 Dadansoddi dros amser

Mae adran 4 yn cyfeirio at gymaroldeb dangosyddion dros amser, a cheir rhagor o wybodaeth yn yr atodiad (tabl 1).

Yn aml, mae newidiadau i ddiffiniadau dangosyddion ar draws mynegeion yn golygu na ellir cymharu data dros amser mewn gwirionedd. Fodd bynnag, er y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli newidiadau absoliwt i werthoedd dangosyddion, gellir dadansoddi newidiadau cymharol dros amser o hyd. Er enghraifft, er mwyn cymharu amddifadedd cymharol rhwng 2014 a 2019, gall defnyddwyr grwpio ACEHlau yn ddegraddau yn unol â data'r dangosydd perthnasol, ac edrych ar yr ardaloedd hynny sydd wedi symud i ddegraddau uwch neu is. Felly, gallwn dybio bod ardal sy'n symud o'r trydydd degradd (yr 20-30 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig) yn 2014 i'r degradd cyntaf (y 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig) yn 2019 wedi gwaethgu yn nhermau, dyweder, ei hamddifadedd incwm plant cymharol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio na ddylid cymharu safleoedd unigol dros amser gan mai mesur cymharol ydynt.

Caiff data rhai dangosyddion eu diweddarau rhwng mynegeion. Er enghraifft, cyhoeddwyd data ar amddifadedd incwm ac absenoldeb mynych yn flynyddol rhwng 2014 a 2017, ac roedd y diweddariadau hyn yn cynnwys data wedi'u dadansoddi yn ôl oedran. Ceisir gwneud cyn lleied o newidiadau â phosibl i ddiffiniadau data dangosyddion a dulliau cyfrifo rhwng mynegeion, ac mae hyn yn cefnogi cymariaethau absoliwt mwy dibynadwy dros amser. Fodd bynnag, fel y nodir yn adran 4.1 a 4.2, mae mân newidiadau mewn data ar incwm a chyflogaeth, gan gynnwys newidiadau i feini prawf cymhwysedd ar gyfer rhai budd-daliadau, yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli newid dros amser. Mae Tabl 1 yn yr atodiad yn rhoi gwybodaeth am gymharedd data dangosyddion MALIC 2019 dros amser.

10 Astudiaeth achos

Dyma astudiaeth achos; enghraifft o broblem y gellid ei datrys drwy ddadansoddi data MALIC. Gadewch inni ystyried yr ymchwiliad ffuglennol canlynol:

“Rwy'n gyfrifol am ddyrannu cyllid i glybiau ar ôl ysgol ar gyfer plant ysgol gynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle mae gennym saith clwb ar hyn o bryd. Rwyf wedi cael grant ychwanegol y gellir ei ddyfarnu i ddau o'r clybiau hyn. Hoffwn i'r grant hwn gael ei ddefnyddio ar gyfer dau glwb mewn ardaloedd lle mae lefel isel o gyflawniad addysgol ymhlith plant ysgol gynradd, yn ogystal â lefel uchel o amddifadedd incwm. A allaf ddefnyddio'r MALIC i wneud hyn?”


Byddwn nawr yn trafod y camau i'w cymryd i gynnal y dadansoddiad hwn. Dylem dybio bod gennym restr o gyfeiriadau'r saith clwb hyn. Gallwn ddefnyddio adnodd rhyngweithiol MALIC i chwilio am eu lleoliadau, a chanfod eu bod yn perthyn i'r ACEHlau a restrir isod. Fel arall, gallwn fewnbynnu codau post y clybiau i'n [Taenlen chwilio am godau post ar gyfer safleoedd MALIC](#), a chanfod i ba ACEHlau y mae'r clybiau ar ôl ysgol yn perthyn. Argymhellir y dylai defnyddiwr ddefnyddio'r dull hwn pan fydd angen dod o hyd i AGEHI sawl cod post ar unwaith.

1. W01001012
2. W01001050
3. W01001004
4. W01001002
5. W01001038
6. W01001037
7. W01000981

Ar ôl ystyried yn ofalus pa ddangosyddion a all fod yn berthnasol i'r diben penodol hwn, gallwn ddefnyddio StatsCymru i lawrlwytho set ddata y gallwn ei defnyddio i lunio'r tabl canlynol:

Enw'r AGEHI	Cod yr AGEHI	Awdurdod Lleol	Plant 5-9 oed sydd mewn amddifadedd incwm (%)	Nifer y plant 5-9 oed sydd mewn amddifadedd incwm	Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2
Bracla 3	W01000981	Pen-y-bont ar Ogwr	53	60.95	87
Corneli 4	W01001002	Pen-y-bont ar Ogwr	36	74.52	86
Felindre 1	W01001004	Pen-y-bont ar Ogwr	16	11.68	89
Llangynwyd 1	W01001012	Pen-y-bont ar Ogwr	9	9.27	84
Oldcastle 3	W01001037	Pen-y-bont ar Ogwr	7	5.11	92
Pendre	W01001038	Pen-y-bont ar Ogwr	24	30	88
Y Pîl 3	W01001050	Pen-y-bont ar Ogwr	48	34.08	89

Gallwn nodi'r canlyniadau hyn mewn siart bar i'w dadansoddi'n hawdd:



Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos mai Bracla 3 a'r Pîl 3 sydd â'r crynodiad uchaf o blant 0-5 oed sydd mewn amddifadedd incwm, ac mai Corneli 4 a Bracla 3 sydd â'r nifer mwyaf o blant 5-9 oed mewn amddifadedd incwm. Llangynwyd 1 sydd â'r sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 isaf (lefel cyrhaeddiad addysgol), yna Corneli 4 a Bracla 3.

Mae'r dadansoddiad hwn yn helpu i nodi pa glybiau sydd mewn ardaloedd â lefelau uwch o amddifadedd cymharol. Yn yr enghraifft ffuglennol hon, ac ar y sail eu bod yn perthyn i'r ddwy ardal fwyaf difreintiedig ar gyfer dau o'r tri dangosydd, gallai hyn fod wedi arwain at ddyrannu'r grant ychwanegol i glybiau ym Mracla 3 a Chorneli 4.

Yn yr enghraifft hon, mae'n werth ystyried bod y dadansoddiad yn defnyddio lleoliad y clwb yn hytrach na chyfeiriad preswyl y rhai sy'n mynychu'r clwb. Felly, yn y sefyllfa hon, gellir defnyddio MALIC fel canllaw, ond gellid ei ategu gan wybodaeth leol.

11 Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

11.1 Data dangosyddion

Cyhoeddwyd rhifyn diweddaraf MALIC ar 27 Tachwedd 2019. Cyhoeddwyd rhywfaint o ddata'r dangosyddion wedi'u rhannu yn ôl oedran ym mis Ionawr 2020. Yn 2021, byddwn yn cyhoeddi data ar gyflyrau cronig a chyflyrau iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddygon teulu wedi'u rhannu yn ôl oedran.

Ni wnaethom ddiweddarau unrhyw un o ddangosyddion MALIC yn 2020 oherwydd y rhesymau a nodir yn ein [diweddariad i ddata dangosyddion MALIC \(2020\) a gyhoeddwyd ar llyw.cymru](#).

Rydym bellach wedi adolygu'r potensial ar gyfer diweddarau data dangosyddion yn ystod 2021. Gan ystyried defnyddioldeb cyfyngedig y diweddariadau sy'n bosibl, ansicrwydd arall a goblygiadau o ran adnoddau (i gyflenwyr data ac i Lywodraeth Cymru), ni fyddwn yn diweddarau unrhyw ddata dangosyddion yn 2021. Byddwn yn parhau i gyhoeddi allbynnau sy'n seiliedig ar 2019, yn cynnig sesiynau ymwybyddiaeth MALIC, ac yn ymgymryd â gwaith datblygu tymor hwy ar ddangosyddion allweddol cyn y diweddariad mynegai nesaf (nid yw'r amseru wedi'i bennu eto).

11.2 Rhifyn nesaf MALIC

Cyhoeddir y mynegai nesaf yn dilyn cyhoeddi data ardaloedd bach Cyfrifiad 2021, ond nid yw'r union amseru wedi'i bennu eto.

Rydym yn croesawu adborth ar holl gynhyrchion MALIC, gan gynnwys yr amrywiaeth o setiau data dangosyddion sydd ar gael. Gallwch gysylltu â ni yn ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru.

12 Nodiadau ar y defnydd o erthyglau ystadegol

Yn gyffredinol, mae a wnelo erthyglau ystadegol â dadansoddiadau untro lle na fwriedir eu diweddaru, yn y byrdymor o leiaf, a'u diben yw sicrhau bod y fath ddadansoddiadau ar gael i gynulleidfa ehangach nag a fyddai'n wir fel arall. Fe'u defnyddir yn bennaf i gyhoeddi dadansoddiadau archwiliadol mewn rhyw ffordd, er enghraifft:

- cyflwyno cyfres newydd o ddata arbrofol
- dadansoddiad rhannol o fater sy'n darparu man cychwyn defnyddiol i gyflawni rhagor o ymchwil ond sydd, serch hynny, yn ddadansoddiad defnyddiol yn ei rinwedd ei hun
- tynnu sylw at ymchwil sydd wedi'i chynnal gan sefydliadau eraill, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru neu fel arall, lle mae'n ddefnyddiol tanlinellu'r casgliadau, neu adeiladu ar yr ymchwil ymhellach
- dadansoddiad lle nad yw'r canlyniadau o ansawdd mor uchel â'r rhai yn ein datganiadau ystadegol a'n bwletinâu arferol efallai, ond lle gellir dod i gasgliadau ystyrlon o hyd gan ddefnyddio'r canlyniadau. Pan fo ansawdd yn broblem, gall hyn godi mewn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:
- ni ellir nodi'r cyfnod o amser a ddefnyddir yn gywir (a all ddigwydd pan ddefnyddir ffynhonnell weinyddol)
- ansawdd y ffynhonnell ddata neu'r data a ddefnyddir
- resymau eraill a nodir.

Fodd bynnag, bydd lefel yr ansawdd yn golygu nad yw'n cael effaith sylweddol ar y casgliadau. Er enghraifft, efallai na fydd yr union gyfnod o amser yn ganolog i'r casgliadau y gellir eu llunio, neu drefn maint y canlyniadau, yn hytrach na'r union ganlyniadau, sydd o ddiddordeb i'r gynulleidfa. Nid yw'r dadansoddiad a gyflwynir yn gyfystyr ag Ystadegyn Gwladol, ond gellir ei ddefnyddio gydag allbynnau Ystadegau Gwladol a bydd, serch hynny, wedi cael ei ystyried yn ofalus a'i archwilio'n fanwl cyn ei gyhoeddi. Bydd asesiad o gryfderau a gwendidau'r dadansoddiad wedi'i gynnwys yn yr erthygl, er enghraifft cymhariaeth â ffynonellau eraill, ynghyd â chanllawiau ar sut y gellir defnyddio'r dadansoddiad, a disgrifiad o'r fethodoleg sydd ar waith.

Mae erthyglau yn dilyn yr arferion rhyddhau a ddiffinnir yn y protocol arferion rhyddhau ac, felly, er enghraifft, fe'u cyhoeddir ar ddyddiad a bennir ymlaen llaw yn yr un ffordd ag allbynnau ystadegol eraill.

Mae symbolau gwerth coll a ddefnyddir yn yr erthygl yn dilyn y safonau a ddefnyddir mewn allbynnau ystadegol eraill, fel yr amlinellir isod.

.. Nid yw'r eitem o ddata ar gael

. Nid yw'r eitem o ddata yn gymwys

